## Asesiad Iaith Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro –

## Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol

**Teitl yr hyn sy’n cael ei Asesu:** Cynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol (Cam 2: Ar ôl yr Ymgynghoriad)
**Ai Asesiad Iaith Gymraeg fesul cam yw hwn:** Ie. Dyma Gam 2: Ar ôl yr Ymgynghoriad, cyn cymeradwyo.

Nod yr offeryn asesu hwn yw sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd yn ein cynllun, polisi a phrosesau gwneud penderfyniadau er mwyn:

- Cefnogi’r gwaith o hybu’r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio’r Gymraeg, hybu/ gweledêdd y Gymraeg, nifer y siaradwyr Cymraeg, rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio’r Gymraeg, a chynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg
- Cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg

Mae’n ystyried effaith ar y canlynol:

- Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol
- Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol
- Siaradwyr Di-Gymraeg: Gwelededd, Ymwybyddiaeth, Hybu - Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol
- Cymunedau Sensitif i’r Gymraeg/ / Ardaloedd â nifer uchel o Siaradwyr Cymraeg
- Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion
- Grwpiau cymunedol sy’n hwyluso defnyddio’r Gymraeg
- Y Gymraeg wrth greu lleoedd – enwau lleoedd, nodweddion mewn tirweddau a thafodiaith

## Adran 1 – Manylion y Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol sy'n cael ei asesu** | Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol – Cynllun Partneriaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol 2025-2029 (Adolygiad)<br><br>Rhaid i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli pum mlynedd "sy'n llunio ei bolisi ar gyfer rheoli'r Parc perthnasol ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Parc hwnnw" (Adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd, 1995). |
| **Adran/ Maes Gwasanaeth** | Polisi Strategol |
| **Swyddog sy'n Gyfrifol am Asesu Effaith** | Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth) / Michel Regelous (Swyddog Cynllun Rheoli a Morol) |
| **Uwch-reolwr Cyfrifol** | Enw: Sara Morris<br>Teitl: Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu |
| **Amserlen ar gyfer yr Asesiad** | Cam 1: Cyn yr Ymgynghoriad – Mai 2024 cyn i'r ddogfen ymgynghori fynd gerbron APC ar 19 Mehefin.<br>Cam 2: Diweddarwyd yr asesiad ar ôl y cyfnod ymgynghori cyn i'r cynllun gael ei gymeradwyo'n derfynol. |
| **Monitro ac Adolygu'r Asesiad** | Asesiad fesul cam oedd hwn, ac mae'r asesiad cam 1 wedi cael ei ailystyried ar ôl y cyfnod ymgynghori cyn ei gymeradwyo'n derfynol er mwyn ystyried yr adborth i'r ymgynghoriad a diwygiadau pellach i'r cynllun, gan gynnwys newidiadau i'r strwythur ac ati mewn ymateb i'r adborth i'r ymgynghoriad. Dylai'r asesiad fod yn sail i aralleirio lle bo angen yn y Cynllun – i'w gynnwys yn y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad. Gall yr asesiad nodi camau y mae angen eu cymryd fel rhan o broses rhoi'r cynllun ar waith – i'w gynnwys yn y cynllun gweithredu ar ddiwedd yr asesiad. |
| **Llofnod y Prif Weithredwr – Asesiad wedi'i Gwblhau a Chrynodeb/ Argymhellion (Cam 1)** | Dyddiad llofnodi:<br>11/03/2025 |

## Adran 2 – Nodau a Throsolwg o'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol

| **Beth yw ei ddiben arfaethedig?** |
| --- |
| Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Rhaid i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi Cynllun Rheoli pum mlynedd "sy'n llunio ei bolisi ar gyfer rheoli'r Parc perthnasol ac ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Parc hwnnw" (Adran 66 o Ddeddf yr Amgylchedd, 1995). Mae'r Cynllun Rheoli cyfredol ar gyfer 2020-2024. Mae'r Cynllun Rheoli drafft newydd hwn – neu Gynllun Partneriaeth - ar gyfer 2025-2029. Mae'n adeiladu ar gynlluniau blaenorol, ac yn adlewyrchu deddfwriaeth a pholisi wedi'u diweddaru, ac yn ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o sgyrsiau parhaus â sefydliadau partner a'r cyhoedd. Mae'n defnyddio dull ailadroddol o gynllunio, lle mae'r allbynnau a'r hyn a ddysgwyd o gylch un cynllun yn sail i'r nesaf.<br><br>Mae'r Cynllun yn cynnwys adran ar Nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol sydd wedi'i diweddaru yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus penodol ar nodweddion arbennig. Mae'r Nodweddion Arbennig wedi'u nodi o dan y penawdau canlynol gyda datganiad o arwyddocâd wedi'i ychwanegu atynt:<br>• Tirweddau a morweddau<br>• Golygfeydd arfordirol<br>• Bywyd gwyllt<br>• Hawliau Tramwy<br>• Golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored<br>• Llonyddwch<br>• Awyr y Nos<br>• Patrymau defnydd<br>• Treftadaeth a Diwylliant<br>• Treftadaeth y Ddaear<br>• Cyfle Hamdden<br>• Cymuned a Stiwardiaeth<br><br>Yn dilyn yr ymgynghoriad, gwnaed nifer o newidiadau i strwythur y ddogfen, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Ychwanegu gweledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol<br>• Rhagor o wybodaeth am sut bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn partneriaeth<br>• Cenadaethau wedi cael eu hychwanegu at bob thema |

- Diwygio’r strwythur i gynnwys y canlynol o dan bob thema - cenhadaeth, canlyniadau, polisïau a mesurau ac yna set o gamau gweithredu partneriaid ar gyfer ffrydiau gwaith o dan bob maes polisi.

Mae themâu ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth wedi cael eu cynnwys, gyda chyfres o ganlyniadau allweddol a thabl o bolisïau gyda chanlyniadau allweddol a phartneriaid a fydd yn gyfrifol am eu cyflawni. Dyma’r themâu ar gyfer gweithredu mewn partneriaeth:

| Thema | Cenhadaeth | Canlyniadau | Polisïau |
|---|---|---|---|
| Cadwraeth | Gwarchod a gwella tirweddau, morweddau, harddwch naturiol a bywyd gwyllt. | 1. Byddwn yn gwarchod a gwella ansawdd y dirwedd a’r morwedd.<br>2. Byddwn yn gwarchod golygfeydd pell, di-dor a gorwelion agored.<br>3. Byddwn yn lleihau effaith llygredd golau ar fywyd gwyllt a phobl.<br>4. Byddwn yn gwarchod safleoedd treftadaeth y ddaear.<br>5. Byddwn yn gwarchod a gwella iechyd pridd a gwella storfeydd carbon naturiol.<br>6. Byddwn yn hyrwyddo adferiad ecosystem ar raddfa (y targed o 30x30) ac yn gwella cyflwr bywyd gwyllt ar dir ac yn yr amgylchedd morol (fel carreg filltir i sicrhau adferiad clir erbyn 2050).<br>7. Byddwn yn gwella cysylltedd y dirwedd ar gyfer bywyd gwyllt.<br>8. Byddwn yn sicrhau statws cadwraethol ffafriol ar safleoedd uchel eu gwerth o ran byd natur. | ○ Polisi L1: Gwarchod a gwella tirweddau a morweddau’r Parc Cenedlaethol.<br>○ Polisi L2: Gwarchod a gwella awyr dywyll y nos.<br>○ Polisi L3: Gwarchod a gwella treftadaeth y ddaear.<br>○ Polisi L4: Gwarchod a gwella seinweddau naturiol.<br>○ Polisi E1: Gwarchod a gwella ansawdd, maint a chysylltedd bioamrywiaeth ar raddfa addas.<br>○ Polisi E2: Gwarchod a gwella bioamrywiaeth forol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 9. Byddwn yn cynnal a gwella rhywogaethau mae Sir Benfro yn unigryw o bwysig ar eu cyfer. | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol a Chysylltiad | Hyrwyddo mwynhad a dealltwriaeth o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol<br><br>Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol | 1. Byddwn yn gwarchod ac yn adfer asedau hanesyddol sydd wedi'u dynodi a heb eu dynodi.<br>2. Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at darged Cymraeg o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br>3. Byddwn yn chwalu'r rhwystrau i gyfleoedd hamdden a llesiant yn yr awyr agored ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gynulleidfaoedd mwy amrywiol, ee pobl ag anableddau gweladwy neu gudd, plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig, pobl o grwpiau mwyafrifoedd byd-eang, grwpiau ffydd ac ymylol.<br>4. Bydd mwy o bobl ifanc yn darganfod ac yn mwynhau'r Parc Cenedlaethol. | o H1: Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Henebion Rhestredig, adeiladau o ddiddordeb, asedau treftadaeth heb eu dynodi a'u hamgylchoedd. Gwarchod a gwella tirweddau o ddiddordeb hanesyddol, Ardaloedd Cadwraeth, Parciau a Gerddi Hanesyddol, Henebion Rhestredig, adeiladau o ddiddordeb, asedau treftadaeth heb eu dynodi a'u hamgylchoedd.<br>o Polisi H2: Hybu'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol, yn ogystal â dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd.<br>o Polisi W1: Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd hamdden awyr agored cynaliadwy i bawb.<br>o Polisi W2: Cynnig a hyrwyddo profiadau dysgu sy'n ysbrydoli yn yr awyr agored, yn ogystal â llesiant datblygiad personol i bawb. |
| Hinsawdd ac Adnoddau Naturiol | Lleihau ac addasu i effeithiau newid hinsawdd Rheoli adnoddau | 1. Byddwn yn haneru allyriadau carbon yn ardal y Parc Cenedlaethol erbyn 2030 (llinell sylfaen 2018).Dyma garreg filltir wrth sicrhau bod ardal y | 7. Polisi N1: Cyfrannu at Gymru carbon-niwtral.<br>8. Polisi N2: Addasu i'r newid yn yr hinsawdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | naturiol yn gynaliadwy | Parc Cenedlaethol yn garbon-niwtral erbyn 2050)<br>2. Byddwn yn ymateb yn rhagweithiol i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ee cymunedau arfordirol, ffyrdd a seilwaith, hawliau tramwy.<br>3. Byddwn yn gwarchod a gwella iechyd pridd a gwella storfeydd carbon naturiol (gan gynnwys storfeydd mewn amgylcheddau morol ac arfordirol)<br>4. Byddwn yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau mewnbwn maethynnau o 50% o leiaf erbyn 2030.<br>5. Byddwn yn cydweithio i leihau effeithiau negyddol llygredd maethynnau ar ansawdd a defnydd dyfroedd mewndirol neu arfordirol.<br>6. Byddwn yn lleihau allyriadau amonia o'r sector amaethyddol. | 9. Polisi N3: Gwarchod a gwella priddoedd a storfeydd carbon naturiol.<br>10. Polisi N4: Gwarchod a gwella ansawdd dŵr ac adfer cyrsiau dŵr naturiol.<br>11. Polisi N5: Diogelu ansawdd aer. |
| Cymunedau | Meithrin llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol, yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol. | 1. Byddwn yn cyflawni holl dargedau'r Cynllun Datblygu Lleol, ee<br>60 o dai newydd y flwyddyn, gyda 23 ohonynt yn rhai fforddiadwy.<br>2. Byddwn yn lleihau'r rhestr aros sylweddol ar gyfer tai fforddiadwy yn Sir Benfro (dros 4,500 yn 2024) We will reduce the significant.<br>3. Byddwn yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni Mynd i'r Afael â Thlodi: Ein Strategaeth hyd at 2023. | Polisi SE1: Meithrin llesiant economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc Cenedlaethol (yn unol â dibenion y Parc Cenedlaethol). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 4. Byddwn yn datblygu ac yn darparu prosiectau a chynlluniau sydd o fudd i'r rheini sy'n wynebu anghydraddoldebau ac amddifadedd, yn enwedig plant a theuluoedd ifanc o ardaloedd difreintiedig.<br>5. Byddwn yn mynd i'r afael â'r nifer fawr o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a'r cyfleoedd prin am gyflogaeth.<br>6. Byddwn yn helpu preswylwyr ac ymwelwyr i addasu i anghenion corfforol a llesiant sy'n newid.<br>7. Byddwn yn rhoi strategaethau caffael ar waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol, gan gyfrannu at gyflawni'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.<br>8. Byddwn yn cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-2028.<br>9. 10. Byddwn yn cynnal ac yn ymestyn trafnidiaeth gynaliadwy a dewisiadau teithio llesol er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040. | |

**Sut mae hyn yn berthnasol i'r Gymraeg?**

- Nod yr ychwanegiadau / newidiadau i'r nodweddion arbennig yw cynnwys mwy o bwyslais ar y Gymraeg a thafodieithoedd.
- Mae'n nodi cysylltiadau rhwng themâu partneriaeth a Nodau Llesiant
- Fel cynllun creu lleoedd, gall gefnogi camau a chanlyniadau sy'n ymwneud â hybu'r Gymraeg, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg, hybu/ gweledded y Gymraeg, nifer y siaradwyr Cymraeg, rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i

ddefnyddio’r Gymraeg, a chynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg. Mae hefyd yn bwysig ystyried a allai’r maes polisi gael effaith negyddol ar y meysydd hyn.

- Mae'r themâu Cyswllt ym maes polisi’r cynllun yn cyfeirio’n benodol at yr Iaith Gymraeg - H2: Hyrwyddo’r iaith Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy’n gysylltiedig â’r dirwedd, ac yn dilyn hynny mae’r canlyniad wedi’i gynnwys - Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at darged Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050[1]
- Mae thema Cymunedau yn cynnwys amrywiaeth o ganlyniadau ar gyfer 2030 a allai fod o fudd i gynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau, gan gynnwys darparu ystod briodol o gartrefi i gefnogi cymunedau lleol, cefnogi ystod briodol o gyfleoedd cyflogaeth.
- Mae gan yr Awdurdod strategaeth hyrwyddo’r Gymraeg sydd ag Amcan penodol ar y canlynol:
    - Amcan 3: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws pob rhan o'r Parc Cenedlaethol a’r elfennau canlynol:
        - Cyflawni: Ni fydd datblygiad a fyddai’n arwain at effaith andwyol annerbyniol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ganiatáu mewn Ardaloedd sy’n Sensitif i’r Iaith Gymraeg a glustnodir ym Mholisi 13 o’r Cynllun Datblygu Lleol 2
        - Cyflawni: Byddwn yn cyfrannu at gydnerthedd ieithyddol cymunedau drwy gynllunio darparu tai fforddiadwy i fynd i’r afael ag anghenion lleol a’r math a chymysgedd priodol o dai cyffredinol o fewn y Parc, a byddwn yn ystyried defnyddio polisïau gosod tai lleol cymunedau gwledig ar safleoedd eithriedig gwledig
        - Cyflawni: Bydd yr adolygiad sydd yn yr arfaeth o gynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol yn gyfle i archwilio’r rhyngberthynas rhwng amcanion yr Awdurdod i hyrwyddo’r Gymraeg, yr Amcanion Llesiant newydd a’r blaenoriaethau, â’i weithgareddau a’i ddyletswyddau ehangach o greu lleoedd.

| **A yw’n newydd neu’n bodoli’n barod a dan adolygiad?** |
|---|
| Mae’r Cynllun Rheoli cyfredol ar gyfer 2020-2024. Adolygiad yw hwn ar gyfer y Cynllun Rheoli drafft newydd ar gyfer 2025-2029. |
| **Beth fydd yn newid o ganlyniad iddo a/neu pa newidiadau sy’n cael eu cynnig?** |
| • Gostyngiad i bedair thema ar gyfer gweithredu mewn Partneriaeth o’r pump gwreiddiol; y themâu newydd yw cadwraeth, cysylltiad, hinsawdd a chyfalaf naturiol a chymunedau. Mae hyn yn cyd-fynd yn agosach ag Amcanion Llesiant diwygiedig yr Awdurdod.<br>• Mae’r Cynllun Rheoli yn nodi amrywiaeth o ganlyniadau ar draws y themâu y mae’n ceisio eu cyflawni drwy weithredu mewn partneriaeth (gweler y tabl uchod) |
| **Beth yw’r canlyniadau nodedig a ragwelir (cadarnhaol a negyddol)?** |

[1] **Llywodraeth Cymru “Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026”**

Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU

| |
|---|
| **Cadarnhaol:**<br>• Mae llai o themâu'n cyd-fynd yn agos ag Amcanion Llesiant diwygiedig yr Awdurdod, sy'n helpu'r Awdurdod i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni'r Cynllun yn fewnol ac wrth weithio gyda phartneriaid strategol<br>• Mae'r ychwanegiadau / newidiadau i'r nodweddion arbennig yn cynnwys mwy o bwyslais ar y Gymraeg a thafodieithoedd<br>• Mae'r Cynllun Rheoli yn nodi amrywiaeth o ganlyniadau ar draws y themâu y mae'n ceisio eu cyflawni drwy weithredu mewn partneriaeth (gweler y tabl uchod)<br>• Mae thema Treftadaeth Ddiwylliannol a Chysylltiad yn cynnwys polisi penodol a chamau partneriaeth sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun.<br><br>**Negyddol:**<br>• Heriau o ran bodloni disgwyliadau â'r cynllun yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar y gyllideb a phwysau cyflenwi sy'n cystadlu â'i gilydd.<br>• Mae'r Awdurdod a phartneriaid yn wynebu amgylchedd ariannol heriol a phwysau a allai effeithio ar y gallu i gyflawni neu greu heriau/ materion newydd. Bydd angen i'r Awdurdod weithio'n greadigol ac ar y cyd â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.<br>• Gallai rhai ymyriadau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Gymraeg arwain at ganlyniadau ac effeithiau negyddol annisgwyl, ac fe ddylai'r broses asesu helpu i nodi'r rhain ynghyd ag unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen.<br>• Gall rhai ymyriadau achosi tensiynau rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr y Parc, rhwng cymunedau neu o fewn cymunedau a / neu ymwelwyr.<br>• Tynnwyd sylw at yr heriau sy'n ymwneud â masnacheiddio'r Parc mewn ymatebion i'r arolwg o Nodweddion Arbennig, a hynny o ran pwysau darparwyr antur. Bydd angen i'r Awdurdod, wrth iddo edrych ar gyfleoedd arallgyfeirio incwm, ystyried sut y gall gydbwyso ei anghenion ariannol ei hun â'r heriau hyn. Yn gysylltiedig â hyn mae rhwystrau posibl y gellir eu rhoi ar rai grwpiau oherwydd y cynnydd mewn ffioedd ar gyfer rhai gwasanaethau. |
| **Nodwch y goblygiadau o ran y gyllideb sy'n ymwneud â hyn?** |
| • Mae cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwaith o ddatblygu Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys cyfieithu i'r Gymraeg.<br>• Mae'r cynllun yn nodi cyfeiriad strategol yr Awdurdod a bydd yn llywio'r gwaith o flaenoriaethu adnoddau ar gyfer cyflawni yn ei erbyn yn y dyfodol. Mewn rhai ardaloedd, bydd angen cyllid allanol/ prosiect ychwanegol. Mae cyfleoedd i gysoni gwahanol nodau a gweithgareddau i ddatblygu prosiectau sy'n cwrdd â nifer o amcanion gan gynnwys Hybu'r Gymraeg er mwyn helpu i sicrhau cyllid i brosiectau. |

| |
|---|
| • Mae'r Awdurdod a phartneriaid yn wynebu amgylchedd ariannol heriol a phwysau a allai effeithio ar y gallu i gyflawni neu greu heriau/ materion newydd. Bydd angen i'r Awdurdod weithio'n greadigol ac ar y cyd â phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.<br>• Tynnwyd sylw at yr heriau sy'n ymwneud â masnacheiddio'r Parc mewn ymatebion i'r arolwg o Nodweddion Arbennig, a hynny o ran pwysau darparwyr antur. Bydd angen i'r Awdurdod, wrth iddo edrych ar gyfleoedd arallgyfeirio incwm, ystyried sut y gall gydbwyso ei anghenion ariannol ei hun â'r heriau hyn. |
| **Nodwch pa grwpiau o bobl y bydd effaith arnynt, neu y gallai fod effaith arnynt, yn sgil ei roi ar waith (e.e. defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, gwirfoddolwyr, pobl sy'n byw mewn cymunedau penodol)? Dylech gynnwys unrhyw grwpiau Cymraeg y mae'n debygol o effeithio arnynt** |
| 1. Cymunedau, Ymwelwyr, preswylwyr, rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn gyffredinol<br><br>• Bydd y Cynllun yn dylanwadu ar gamau yn y dyfodol a allai effeithio ar bobl sy'n byw yn y Parc; gallai fod mewn meysydd fel llety, cyflogaeth, trafnidiaeth, mynediad i'r awyr agored, treftadaeth a diwylliant, addysg, mentrau llesiant ac ansawdd yr amgylchedd a'r dirwedd maen nhw'n byw ynddo. Gallai hefyd effeithio ar gydnerthedd cymunedau yn y Parc yn y dyfodol.  Mae gan hyn oblygiadau i bobl ar draws y grwpiau canlynol: Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr, Cymunedau, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol /Dysgwyr – Preswylwyr, Cymunedau, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Siaradwyr Di-Gymraeg: Gwelededd, Ymwybyddiaeth, Hybu – Preswylwyr, Cymunedau, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg - Ardaloedd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg/ Dysgu Cymraeg – Ysgolion ac Addysg Oedolion/ Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg.<br>• Bydd y Cynllun yn dylanwadu ar gamau a allai effeithio ar ymwelwyr â'r Parc yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad a phrofiad. Mae gan hyn oblygiadau i Siaradwyr Cymraeg – ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol /Dysgwyr –ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Siaradwyr Di-Gymraeg: Gwelededd, Ymwybyddiaeth, Hybu – ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg - Ardaloedd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.<br>• Nod y Cynllun yw cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro. Mae gan hyn oblygiadau i Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr, Cymunedau, ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol /Dysgwyr – Preswylwyr, Cymunedau, ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Siaradwyr Di-Gymraeg: Gwelededd, Ymwybyddiaeth, Hybu – Preswylwyr, Cymunedau, ymwelwyr, ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol/ Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg - Ardaloedd â nifer uchel o siaradwyr Cymraeg/ Dysgu Cymraeg – Ysgolion ac Addysg Oedolion/ Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnydd o'r Gymraeg. |

- Nod y Cynllun yw cynnwys pobl yn y gwaith o ofalu am y Parc a dylanwadu ar ymddygiad pobl pan fyddant yn y Parc, gan gynnwys defnyddwyr hamdden. Mae'n bwysig ystyried defnydd o'r Gymraeg, cyfleoedd dysgu a hybu o ran hwyluso cyfleoedd ac ymgysylltu â phobl.
- Mae'r cynllun yn rhan o'r gwaith o ddatblygu sgwrs barhaus am y Parc gyda Chymunedau a Rhanddeiliaid. Defnyddio'r Gymraeg, cyfleoedd dysgu a hybu o ran hwyluso cyfleoedd ac ymgysylltu â phobl.
- Nod y cynllun yw cefnogi canlyniadau iechyd gwell i'r rhai sy'n byw yn y Parc neu sy'n ymweld â'r Parc. Roedd Cynllun Llesiant Sir Benfro yn nodi bod "Siaradwyr Cymraeg yn adrodd bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn y gweithle yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant."

2. Y gwaith a wnaed gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun.
   - Mae'r Cynllun yn nodi themâu partneriaeth y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau partner yn ceisio mynd i'r afael â nhw ac a allai effeithio ar y gwaith y maent yn ei wneud ar draws y meysydd thema hyn: Cadwraeth, Cysylltiad, Hinsawdd a chyfalaf naturiol, Cymunedau.
   - O ran yr Awdurdod, mae'r themâu partneriaeth yn cyd-fynd â'i Amcanion Llesiant a bydd y manylion yn y meysydd polisi a'r adrannau canlyniadau yn dylanwadu ar y camau blaenoriaeth a'r elfennau i'w cyflawni yng nghynlluniau cyflawni'r Awdurdod. Bydd hefyd yn tynnu sylw at feysydd allweddol ar gyfer ei waith mewn partneriaeth yn y dyfodol.

3. Gwaith hirdymor Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun.
   - Byddwn yn monitro effaith er mwyn gwerthuso cyfeiriad a chyflymder y gwaith. Pan fydd bylchau'n cael eu nodi, efallai y bydd angen cymryd camau ychwanegol.
   - Mae dimensiwn cynllunio defnydd tir Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael ei roi ar waith drwy'r Cynllun Datblygu Lleol statudol ar gyfer y Parc Cenedlaethol.
   - Cynllunio'r gweithlu o ran sgiliau iaith Gymraeg o fewn yr Awdurdod a sefydliadau Partner.

4. Staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun.
   - I ddatrys rhai o'r heriau a nodwyd neu i fynd ar drywydd rhai o'r cyfleoedd a nodwyd, efallai y bydd angen i staff newid ac addasu eu ffyrdd o weithio. Efallai y bydd staff hefyd yn gweithio yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar y gyllideb a phwysau cyflenwi sy'n cystadlu â'i gilydd.
   - Bydd yn allweddol cydweithio â phartneriaid er mwyn cyflawni'r cynllun.

- Gallai'r cynllun effeithio ar feysydd sy'n ymwneud â sgiliau'r gweithlu (gan gynnwys sgiliau Cymraeg), trafnidiaeth, tai, hamdden a mynediad i'r awyr agored a diwylliant - sef meysydd a allai effeithio ar recriwtio, profiadau a'r gallu i gadw'r gweithlu.

**A yw'r polisi'n gysylltiedig â pholisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol) ac unrhyw asesiadau a gynhelir arnynt, neu a yw'r rhain yn dylanwadu neu'n effeithio arno?**

**Mae'r meysydd canlynol wedi'u hamlygu o fewn adran deddfwriaeth/ polisi a chynigion a chanllawiau ac adnoddau'r cynllun:**

**Allanol:**

- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2014
- Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Deddf yr Amgylchedd 1995
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gan gynnwys egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023
- Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (gan gynnwys egwyddorion y pum ffordd o weithio)

**Polisi a chynigion:**

- Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth 2022 (gan gynnwys y targed 30x30)
- Cymraeg 2050
- Egwyddorion amgylcheddol, llywodraethiant a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn 2024, sy'n cynnwys cynigion am fframwaith targed statudol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, a gyflwynir yn lleol drwy'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol, sydd wedi'i anelu at wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050
- Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd
- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Fframwaith Pontio Teg ar gyfer sero net
- Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

- Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021
- Datganiad Ardal Forol
- Datganiad Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd Parciau Cenedlaethol y DU
- Polisi Adnoddau Naturiol 2017
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro
- Cynllun Strategol Sero Net 2022
- Cynllun Sŵn a Seinwedd Cymru 2023-2028
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28
- Strategaeth Perygl Llifogydd Leol Sir Benfro
- Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, Chwefror 2024
- Datganiad Ardal De-orllewin Cymru
- Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd De-orllewin Cymru 2023-2029
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru (2025-2030)
- Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025
- Cynllun Llesiant Sir Benfro 2023-2028
- Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

**Canllawiau ac adnoddau:**
- Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2021)
- LANDMAP – sylfaen tirwedd Cymru
- Canllawiau’r Cynllun Rheoli Tirweddau Dynodedig (Cyfoeth Naturiol Cymru) Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Cymru 2020 / Pontydd i’r Dyfodol
- Adroddiad Hinsawdd y DU 2023: Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru. Gweledigaeth Natur a Ni (2023) ar gyfer 2050 lle mae cymdeithas a natur yn ffynnu gyda’i gilydd, a lle mae pobl yn cyfrannu mwy at benderfyniadau sy’n effeithio ar natur.
- Sefyllfa Byd Natur 2023
- Trydydd Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU: Crynodeb i Gymru

**Cynlluniau Mewnol/ Asesiadau Integredig:**
- Cynllun Datblygu Lleol 2 (hyd at 2031) – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wedi’i gynnal fel rhan o’r broses ddatblygu
- Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ac Amcanion Llesiant 2023/24 – 2026/27

- Cynllun Cydraddoldeb ac Amcanion 2020 - 2024 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal fel rhan o'r broses ddatblygu. Cynllun yn cael ei adolygu ar hyn o bryd (Ni chyfeirir ato yn y cynllun ar hyn o bryd ond dylid cyfeirio ato). Mae'r nodau hirdymor yn y Cynllun presennol yn cynnwys:
    - Creu Parc sy'n Dirwedd i Bawb, mae hyn yn cynnwys yr amcanion cydraddoldeb canlynol:
        - Amcan Cydraddoldeb 1: Erbyn 2024, bydd ein gwaith o hybu'r Parc Cenedlaethol fel cyrchfan yn cynrychioli cynulleidfaoedd mwy amrywiol a byddwn wedi cael gwared ar rai o'r pethau sy'n rhwystro grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli neu bobl sy'n wynebu rhwystrau penodol rhag cael mynediad i'r Parc. Bydd hyn yn arwain at ystod fwy amrywiol o bobl yn elwa ac yn profi ei Nodweddion Arbennig.
        - Amcan Cydraddoldeb 2: Erbyn 2024, byddwn yn sicrhau bod yr atebion a ddatblygir i fynd i'r afael â'r cyfleoedd a'r heriau a nodir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gynhwysol a'u bod yn ystyried Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y Cynllun.
    - Mae ein Gwasanaethau'n hygyrch ac yn gynhwysol yn ddiofyn ac mae ein prosiectau'n cyfrannu at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb
    - Mae ein gweithlu'n amrywiol, rydym yn gyflogwr o ddewis ac mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg
    - Mae amrywiaeth eang o bobl yn gallu dylanwadu ar waith yr Awdurdod a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar ardal y Parc.
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg – 2023 -2028 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal fel rhan o asesiad integredig sy'n rhan o'r broses ddatblygu. (Ni chyfeirir ato yn y cynllun ar hyn o bryd ond dylid cyfeirio ato)
- Asesiadau Integredig yn ymwneud ag ystyriaethau a phenderfyniadau rheoli hamdden – Traeth Mawr, Freshwater East ac amrywiadau i Reolau Sefydlog Meysydd Parcio (sy'n ymwneud â chodi tâl).
- Maniffesto Ieuenctid Arfordir Penfro, sy'n canolbwyntio ar gamau ar gyfer y canlynol:
    - Grymuso Ieuenctid
    - Byw
    - Dysgu
    - Gweithio

## Adran 3 – Ystyried y Dystiolaeth ac Asesu Effaith: Y Gymraeg

Mae'r adran hon yn defnyddio data, gwybodaeth, ymgynghoriad ac ymgysylltiad a gwybodaeth berthnasol arall i asesu effaith bosibl y cynllun, y polisi neu'r penderfyniad a'r camau lliniaru posibl sydd eu hangen. Nodir bylchau mewn data a gwybodaeth hefyd. Gweler Atodiad 1 i gael rhagor o dystiolaeth fanwl o ffynonellau allweddol.

Mae dull effaith sy'n canolbwyntio ar faes thematig wedi'i deilwra i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

---

SYLWER: Lle bo hynny'n berthnasol, cyfeirir at yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Nodweddion Arbennig a gynhaliwyd i lywio Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Cafwyd 63 ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar-lein. Nodir y cwestiynau a ofynnwyd isod, ac mae'r ymatebion yn yr adran dystiolaeth yn nodi rhif y cwestiwn y maent yn perthyn iddo:

Y cwestiynau a ofynnwyd

1. Meddyliwch am dri lle yn y Parc Cenedlaethol sy'n arbennig i chi. Beth sy'n gwneud y llefydd hyn yn arbennig?
2. Ydych chi'n gallu meddwl am unrhyw beth arall sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig?
3. Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r nodweddion arbennig rydych chi wedi'u rhestru uchod?
4. Pa gamau y mae angen eu cymryd i ddiogelu neu adfer y pethau sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig?
5. Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?
6. Diolch i chi am ymateb i'r arolwg. Bydd eich ymatebion yn helpu i siapio dulliau rheoli'r Parc Cenedlaethol. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, dylech eu nodi isod.

Mae adborth o'r ymgynghoriad ar y cynllun rheoli drafft wedi cael ei gynnwys lle bo'n berthnasol isod ac mae adborth perthnasol hefyd yn cael ei amlinellu yn Atodiad 2.

---

**A oes gennych chi dystiolaeth neu reswm i gredu y bydd hyn, neu y gallai hyn, effeithio ar y Gymraeg (Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad) o ran meysydd thematig? Ystyriwch yr effeithiau cadarnhaol a negyddol.**

| **Maes sydd angen sylw** | **Cryfhau'r cyfeiriad at y Gymraeg yn yr Adran Rhagair/ Newidiadau i'r Nodweddion Arbennig** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | • Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gwelededd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

**Tystiolaeth neu Fater**

- Cyfeirio'n fwy pendant at y Gymraeg yn y rhagair gan nad oes cyfeiriad penodol am y rôl y gallwn ei chwarae o ran hybu'r Gymraeg.
- Ni chyfeirir yn benodol at yr Iaith Gymraeg yn y weledigaeth neu sut y bydd gwireddu'r weledigaeth yn edrych. Awgrymu bod y geiriad canlynol yn cael ei ychwanegu at sut bydd cyflawni'r weledigaeth yn edrych: Mae amlygrwydd a'r defnydd o'r Gymraeg yn ffynnu yn y Parc.

- **Meysydd a amlygwyd yn asesiad Cam 1** Dangosodd data Cyfrifiad 2021 fod dros hanner y boblogaeth mewn pedair ardal Cyngor Cymuned yn y Parc yn gallu siarad Cymraeg. Y rhain yw Crymych, Cwm Gwaun, Eglwyswrw a Maenclochog.
- Mae tafodiaith Gymraeg a Saesneg sy'n unigryw i Sir Benfro. Mae dal yn bosibl clywed tafodiaith Gymraeg Sir Benfro heddiw (gan gynnwys o fewn yr Awdurdod ymysg y staff Cymraeg a fagwyd yn Sir Benfro) – Wes am Oes, Wedd am Oedd, Dwe am Ddoe ac ati. Mae casgliad ar-lein Amgueddfa Cymru yn cynnwys recordiad o rywun o Ben-caer a aned ym 1891 yn siarad yn nhafodiaith Gymraeg Sir Benfro: https://amgueddfa.cymru/erthyglau/1509/Tafodiaith-Pen-caer-Sir-Benfro/. Mae rhai ysgolion yn Sir Benfro wedi bod yn cymryd rhan mewn prosiect o'r enw 'Perci ni' gyda chymorth ein tîm o barcmyn; Perci yw'r gair am gae yn nhafodiaith Gymraeg Sir Benfro.
- Sicrhau bod cymunedau yng ngogledd y parc sydd â defnydd cryf o'r Gymraeg nawr ac yn draddodiadol yn cael eu cydnabod ochr yn ochr â datblygu siaradwyr Cymraeg ehangach ar draws Sir Benfro wedi'i ategu gan gyfleoedd addysg cyfrwng

Cymraeg. Mae'n bwysig bod hanes sy'n nodi gwahanol batrymau ieithyddol yn y Parc a Sir Benfro yn cael ei gydnabod ond ein bod yn edrych tua'r dyfodol i sicrhau nad yw ein dull gweithredu yn creu stereoteipiau cyfyngol ar sail lleoliad o ran pwy sy'n siarad Cymraeg, neu a allai siarad Cymraeg, nawr ac yn y dyfodol.

- Wrth ganolbwyntio ar ddiwylliant yn y Parc tueddir i edrych yn ôl ac efallai bod angen ystyried sut mae diwylliant sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn esblygu. Mae hyn wedi'i nodi mewn datganiad yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri y gallem o bosibl ei ailadrodd yn rhywle yn y cynllun: "Mae iaith a diwylliant Cymru wedi parhau i esblygu ac mae bellach yn rhan annatod o ddiwylliant newydd, cynhwysol, bywiog a chyfoes." Dangosir hyn yng ngwaith yr Urdd o ran Cwiar na Nog sef cymuned LHDT ar gyfer aelodau'r Urdd, Dydd Miwsig Cymru a gwaith Cymdeithas Bêl-droed Cymru – Dysgu Cymraeg drwy bêl-droed.
- Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig: Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y Gymraeg mewn ardaloedd o'r Parc
  - ID 36/ Byw yn PCAP/ C1: Iaith a Diwylliant, Treftadaeth ac Archeoleg Cymru." C3: "Ail gartrefi ac Airbnbs, Seisnigo, gormod o dwristiaeth, ffermio dwys," C4: "Mesurau i ddiogelu cadarnleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y parc cenedlaethol, polisïau sy'n ymwneud â thai a llety gwyliau, mwy o swyddi i bobl leol, mwy o gefnogaeth ac arian i dirfeddianwyr i gefnogi ymyriadau cadarnhaol yn y dirwedd a buddion amgylcheddol." C6: "Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal. Gyda thargedau Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dau o'n cyd Barciau Cenedlaethol Cymreig - Eryri a Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu'r sefyllfa o ddefnyddio eu gwir hunaniaeth gydag enwau Cymraeg yn unig, a dyrchafu a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith; mae'n ymddangos yn drist bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mynd yn ôl ac yn gwneud i'r gwrthwyneb. Ydyn ni'n plygu i dwristiaid, neu i'r rhai sy'n gweld yr iaith fel anghyfleustra yn "Little England Beyond Wales"? Neu a yw'n bryd i ardal y Preseli a Gogledd Sir Benfro gael yr anrhydedd o gael eu dynodi yn Barc Cenedlaethol unigryw eu hunain?"
  - ID 11/ Byw yn PCAP/ C2: "Mae angen i ni gefnogi ac annog defnyddio a datblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru."
  - ID 42/ Byw yn PCAP/ C1: "Pentre Ifan, Garn Ingli a Chwm Gwaun. Mae gan y lleoedd hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i Gymru. Maen nhw'n parhau i ddal gafael yn iaith a diwylliant Cymru. Mae'r Parc Cenedlaethol wedi'i ddiffinio'n bennaf am ei fuddion i dwristiaid a demograffig economaidd-gymdeithasol newydd sy'n symud i'r Parc. Ond er bod prisiau tai yn clirio'r gymuned frodorol yn economaidd, gallwn barhau i gysylltu â'n gorffennol dwfn drwy fod yn ystyriol yn y mannau hardd hyn." C2: "Mae'r cerddi Cymraeg sydd wedi disgrifio harddwch naturiol y lle hwn......bellach yn cael eu hanwybyddu."
  - ID 43/ Byw yn PCAP/ C4: "O ran y porwyr, rwy'n ymwybodol iawn bod llawer ohonynt wedi cael eu geni a'u magu yng Nghymru, a bod yr iaith Gymraeg, a'r hanes a'r diwylliant sy'n gysylltiedig â hi, yn ffactor arall sy'n gwneud y Parc yn arbennig."

Mae newidiadau i eiriad y datganiad o arwyddocâd ar gyfer tafodieithoedd Cymraeg a rhai Sir Benfro yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn asesiad Cam 1. Mae bellach yn nodi'r pethau canlynol:Tafodieithoedd Cymraeg a Saesneg Sir Benfro. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg o ran cymunedau yng ngogledd y Parc Cenedlaethol a hefyd datblygiadau o ran y De o'r Parc. Y frawddeg ar linell y Landsger ddim yn y cynllun mwyach. Mae'n cynnwys mwy o ddarlun o'r iaith sy'n edrych tua'r dyfodol o ran ei heffaith ar ddiwylliant**: Mae iaith y Parc Cenedlaethol yn gymysgedd o dafodieithoedd – Cymraeg a Saesneg – a slang. Mae'r iaith yn brawf o wrthdrawiadau amrywiol pobl â lle, llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth a chelf ysbrydoledig ar draws y cenedlaethau.**Mae canran uwch o bobl mewn ardaloedd cynghorau cymuned yng ngogledd y Parc Cenedlaethol yn gallu siarad Cymraeg, tra bo'r Gymraeg yn profi adfywiad yn ne'r Parc Cenedlaethol, gyda chefnogaeth cyfleoedd addysg Gymraeg ledled y sir.

| Effaith/ Risg | Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen |
|---|---|
| **Effaith/ Risg Gyffredinol**<br><br>• Mae'n bwysig bod tafodiaith Gymraeg Sir Benfro, a'r iaith Gymraeg mewn cymunedau penodol yng ngogledd y parc sydd â defnydd cryf o'r Gymraeg nawr ac yn draddodiadol, yn cael eu cydnabod ochr yn ochr â datblygu siaradwyr Cymraeg ehangach ar draws Sir Benfro.<br>• Mae'r ffocws ar ddiwylliant yn tueddu i edrych yn ôl ac efallai bod angen ystyried sut mae diwylliant sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn esblygu. Mae hyn wedi'i nodi mewn datganiad yng Nghynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri y gallem o bosibl ei ailadrodd yn rhywle yn y cynllun: "Mae iaith a diwylliant Cymru wedi parhau i esblygu ac mae bellach yn rhan annatod o ddiwylliant newydd, cynhwysol, bywiog a chyfoes.<br><br>**Cydnabyddiaeth / Effaith Gadarnhaol**<br>• Mae newidiadau i eiriad y datganiad o arwyddocâd ar gyfer tafodieithoedd Cymraeg a rhai Sir Benfro yn | **Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:**<br><br>• Diwygiad i'r Testun:: Cyfeirio'n fwy pendant at y Gymraeg yn y rhagair gan nad oes cyfeiriad penodol am y rôl y gallwn ei chwarae o ran hybu'r Gymraeg.<br>• Diwygiad i'r Testun: Ni chyfeirir yn benodol at yr Iaith Gymraeg yn y weledigaeth neu Sut y bydd gwireddu'r weledigaeth yn edrych. Awgrymu bod y geiriad canlynol yn cael ei ychwanegu at sut bydd cyflawni'r weledigaeth yn edrych: Mae amlygrwydd y Gymraeg a'i defnydd ohoni yn ffynnu yn y Parc. |

| | |
|---|---|
| mynd i'r afael â materion a nodwyd yn asesiad Cam 1. Mae bellach yn nodi'r pethau canlynol:Tafodieithoedd Cymraeg a Saesneg Sir Benfro. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg o ran cymunedau yng ngogledd y Parc Cenedlaethol a hefyd datblygiadau o ran y De o'r Parc. Nid yw'r frawddeg ar linell y Landsger yn y cynllun mwyach. Mae'n cynnwys mwy o ddarlun o'r iaith sy'n edrych tua'r dyfodol o ran ei heffaith ar ddiwylliant:Mae iaith y Parc Cenedlaethol yn gymysgedd o dafodieithoedd – Cymraeg a Saesneg – yn ogystal â slang. Mae'r iaith yn brawf o wrthdrawiadau amrywiol pobl â lle, llenyddiaeth, barddoniaeth, cerddoriaeth a chelf ysbrydoledig ar draws y cenedlaethau. Mae canran uwch o bobl mewn ardaloedd cynghorau cymuned yng ngogledd y Parc Cenedlaethol yn gallu siarad Cymraeg, tra bo'r Gymraeg yn profi adfywiad yn ne'r Parc Cenedlaethol, gyda chefnogaeth cyfleoedd addysg Gymraeg ledled y sir.<br><br>**Ystyriaeth o ganlyniad i newidiadau i'r cynllun drafft**<br>• Cyfeirio'n fwy pendant at y Gymraeg yn y rhagair gan nad oes cyfeiriad penodol am y rôl y gallwn ei chwarae o ran hybu'r Gymraeg.Ni chyfeirir yn benodol at yr Iaith Gymraeg yn y weledigaeth neu Sut y bydd gwireddu'r weledigaeth yn edrych.Awgrymu bod y geiriad canlynol yn cael ei ychwanegu at sut bydd cyflawni'r weledigaeth yn edrych: Mae amlygrwydd y Gymraeg a'i defnydd ohoni yn ffynnu yn y Parc | |

| **Maes sydd angen sylw** | **Nodau Llesiant – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg |
| **Tystiolaeth neu Fater** | |
| Mae mater a nodwyd yn asesiad Cam 1 o ran y tabl gyda chysylltiadau o ran themâu partneriaethau a nodau Llesiant wedi cael sylw, gan fod y thema partneriaeth Cymunedau bellach yn cynnwys "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."Dylai'r canlyniadau ar gyfer y thema hon sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chyflogaeth gyfrannu at y gwaith o gefnogi cymunedau Cymraeg cynaliadwy. | |
| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
| Mae mater a nodwyd yn asesiad Cam 1 o ran y tabl gyda chysylltiadau o ran themâu partneriaethau a nodau Llesiant wedi cael sylw, gan fod y thema partneriaeth Cymunedau bellach yn cynnwys "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."Dylai'r canlyniadau ar gyfer y thema hon sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy a chyflogaeth gyfrannu at y gwaith o gefnogi cymunedau Cymraeg cynaliadwy. | Wedi diwygio ar ôl asesiad Cam 1. |

| **Maes sydd angen sylw** | **Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol, Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol, Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau |

| | |
|---|---|
| | economaidd-gymdeithasol, Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion, Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg, Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol, Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:Defnyddio'r Gymraeg, Hybu/ amlygrwydd y Gymraeg, Nifer y Siaradwyr Cymraeg, Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg, Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg, Safonau'r Gymraeg. |

| **Tystiolaeth neu Fater** |
|---|
| Nid oes unrhyw gyfeiriad penodol yn cael ei wneud o ran y Gymraeg yn y datganiad o fwriad, sy'n awgrymu bod 'Diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol' yn cael ei ddiwygio i: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br>Mae hyn yn helpu i nodi'n glir ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Parc.<br><br>Mae'r canlynol wedi cael ei gynnwys o ganlyniad i hyn o dan y thema hon: Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at darged Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
|---|---|
| • Diwygio Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol, fel ei bod yn gwneud datganiad clir ynghylch ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Parc: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg. | **Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:**<br><br>• Diwygio'r Testun:Diwygio Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol i: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg. |

| **Maes sydd angen sylw** | **Rhestr o Bartneriaid y cyfeirir atynt yn y Cynllun hwn** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | • Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gwelededd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

| **Tystiolaeth neu Fater** |
|---|
| Nodwyd bylchau yn y Rhestr o Bartneriaid a grybwyllwyd yn nrafft gwreiddiol y cynllun fel rhan o asesiad cam 1, roedd hyn yn ehangach na'r cynllun iechyd. Fodd bynnag, yn dilyn adborth fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r strwythur a'r cyfeiriadau at bartneriaid wedi cael eu newid, gan ganolbwyntio ar sefydliadau partner, sy'n canolbwyntio ar y rheini sy'n chwarae rôl arweiniol o ran cyflawni ac yna ar y partneriaid cyflawni allweddol. Yn seiliedig ar y rhestr lai, nid yw'n briodol rhestru cynnwys grwpiau ehangach.Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg yn y Parc. Er enghraifft:<br>Urdd Gobaith Cymru (yn benodol â gwersyll Pentre Ifan), Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Sir Benfro, grwpiau cymunedol eraill fel Merched y Wawr a CFfI Sir Benfro, lleoliadau diwylliannol, Blynyddoedd cynnar – Mudiad Meithrin Sir Benfro:Cylch Meithrin, Cymraeg i blant, Clwb Cwtsh, Cylch Ti a Fi. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth.<br><br>Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod |

| | |
|---|---|
| yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig:<br>Coffi a chlonc, Taith gerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr.<br>Bydd yr Eisteddfod yn Sir Benfro yn 2026 ac mae hyn yn cynnig cyfle a chanolbwynt gwych i hyrwyddo'r Gymraeg ac ennyn diddordeb pobl, yn ogystal ag adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r gwaith o'i chyflwyno. | |
| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
| • **Ystyriaeth o ganlyniad i newidiadau i'r cynllun drafft**Nodwyd bylchau yn y Rhestr o Bartneriaid a grybwyllwyd yn nrafft gwreiddiol y cynllun fael rhan o asesiad cam 1. Roedd hyn yn ehangach na'r cynllun iechyd.Fodd bynnag, yn dilyn adborth fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r strwythur a'r cyfeiriadau at bartneriaid wedi cael eu newid, gan ganolbwyntio ar sefydliadau partner, sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o gyflawni ac yna ar y partneriaid cyflawni allweddol. Yn seiliedig ar y rhestr lai, nid yw'n briodol rhestru cynnwys grwpiau ehangach. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg yn y Parc.Er enghraifft:<br>Urdd Gobaith Cymru (yn benodol â gwersyll Pentre Ifan), Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Sir Benfro, grwpiau cymunedol eraill fel Merched y Wawr a CFfI Sir Benfro, lleoliadau diwylliannol, Blynyddoedd cynnar – Mudiad Meithrin Sir Benfro: Cylch Meithrin, Cymraeg i blant, Clwb Cwtsh, Cylch Ti a Fi. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel | • **Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:** Sgwrs/Monitro Parhaus:Ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy'n gallu helpu i gyflawni'r cynllun o ran polisïau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ymgysylltu ag Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro yn rhoi cyfle i helpu i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth.<br>Sgwrs Barhaus: Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol.Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig:Coffi a chlonc, Taith gerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr. |

| | |
|---|---|
| rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth. Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o blethu'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig: Coffi a chlonc, Teithiau cerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr. | |

| **Maes sydd angen sylw** | **Cyfleoedd i Ddefnyddio/ Iechyd a Lles/ Arwahaniad Cymdeithasol a dod â phobl at ei gilydd** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol |

| | |
|---|---|
| | Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gwelededd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

**Tystiolaeth neu Fater**

**Tystiolaeth/ Materion a nodwyd yn Asesiad Cam 1**

- **Safonau ynghylch Hybu'r Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg** (Ffynhonnell: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/tz5jfy1u/20181031-gc-safonau-ynghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf)
    - Yn ei chanllaw arfer da, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi nifer o ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddefnydd unigolion o iaith:
        - Dilyniant - parhad profiadau a chyfleoedd o addysg gynradd i uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i fyd gwaith, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â rhwng profiadau cymdeithasol a chymunedol a rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.
        - Cyfle – mae ansawdd a hwylustod cyfleoedd yn gallu effeithio'n fawr ar ddefnydd a chynnal defnydd o'r iaith i'r dyfodol.
        - Agweddau – mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd maen nhw'n gweithredu ar hynny neu ddim, a sut mae pobl ddi-Gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y caiff hyn ei gyfleu a'i ganfod.
        - Hyder – mae hyder siaradwyr Cymraeg yn gallu amrywio yn ôl sefyllfa (ee ffurfiol ac anffurfiol) ac felly mae angen ystyried sut a ble i dargedu cefnogaeth yn effeithiol
- **Asesiad Llesiant Sir Benfro**
  (Ffynhonnell: https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/asesiad-llesiant )
    - Mae siaradwyr Cymraeg yn adrodd bod y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ac yn y gweithle yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant.
- **Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg: Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020, Llywodraeth Cymru** (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/defnydd-cymdeithasol-or-gymraeg-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020-html )
    - Oedolion

  - Siaradwyr Cymraeg y gogledd orllewin, siaradwyr Cymraeg rhugl, rhai sy'n siarad yr iaith bob dydd a'r rhai oedd wedi dechrau dysgu siarad yr iaith gartref yn blant ifanc sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u grwpiau cymdeithasol.
  - Mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn negeseuon testun ac e-bost nag ar y cyfryngau cymdeithasol.
  - Roedd tua thraean o siaradwyr Cymraeg wedi mynd i ddigwyddiad cymdeithasol neu weithgaredd a gynhaliwyd yn Gymraeg yn ystod y 12 mis blaenorol, ac roedd 23% ychwanegol wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- Plant a phobl ifanc
  - Dywed bron 70% o blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fod mwy o'u ffrindiau'n gallu siarad Cymraeg nag sy'n methu.
  - Mae plant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn fwy tebygol o wneud hynny gyda'u ffrindiau yn yr ysgol nag ydyn nhw o siarad Cymraeg â ffrindiau y tu allan i'r ysgol.
  - Mae tua dwy ran o dair o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg yn dweud eu bod yn cael digon o gyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol.
  - Roedd pedwar o bob deg o blant a phobl ifanc sy'n gallu siarad Cymraeg wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg dros y 12 mis diwethaf, a 24% arall wedi mynd i o leiaf un digwyddiad a gynhaliwyd drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

- Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd (ffynhonnell: WG36969 (llyw.cymru) )
- Effaith COVID-19 ar grwpiau cymunedol Cymraeg: canfyddiadau arolwg, Llywodraeth Cymru (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-grwpiau-cymunedol-cymraeg-canfyddiadau-arolwg )
- Gall corau weithredu fel cyswllt diwylliannol pwysig gyda'r iaith Gymraeg i bobl nad ydynt efallai'n siarad Cymraeg neu i bobl sy'n dysgu Cymraeg, o ran helpu pobl i ymgysylltu ag agweddau ar yr iaith drwy ganu caneuon yn Gymraeg. Er enghraifft, mae Parti Dysgu Cymraeg Sir Benfro ar fin cystadlu mewn cystadleuaeth i gorau yn Nhafarn y Sinc.
- **Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:** Rôl y Gymraeg mewn cymunedau sydd wedi'i hamlygu yn yr ymatebion:
  - ID 36/ Byw yn PCAP/ C1: Yr iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru." C4: "Mesurau i ddiogelu cadarnleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y parc cenedlaethol," C6: "Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal. Gyda thargedau Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dau o'n cyd Barciau Cenedlaethol Cymreig - Eryri a Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu'r sefyllfa o ddefnyddio eu gwir hunaniaeth gydag enwau Cymraeg yn unig, a dyrchafu a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith; mae'n ymddangos yn drist bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mynd yn ôl ac yn gwneud i'r gwrthwyneb.

Ydyn ni'n plygu i dwristiaid, neu i'r rhai sy'n gweld yr iaith fel anghyfleustra yn "Little England Beyond Wales"? Neu a yw'n bryd i ardal y Preseli a Gogledd Sir Benfro gael yr anrhydedd o gael eu dynodi yn Barc Cenedlaethol unigryw eu hunain?”

- ID 11/ Byw yn PCAP/ C2: “Mae angen i ni gefnogi ac annog defnyddio a datblygu’r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.”
- ID 41/ Byw yn PCAP/ C1: “Y ffordd mae natur, ffermio, hanes, iaith a diwylliant Cymru, a'r bobl bellach yn cydblethu.” C4: “Er ei fod yn “amhrisiadwy” rhaid bod ffordd i roi gwerth ar y nodweddion hyn, gan gynnwys y gwaith y mae teuluoedd lleol sy'n ffermio yn ei wneud i warchod yr amgylchedd, ac iaith a diwylliant Cymru. Hybu dysgu a defnyddio’r Gymraeg fel yr ased gwych ydy hi mewn gwirionedd. E.e. drwy ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg. Helpu i gyrraedd y targed o siaradwyr Cymraeg.”
- ID 42/ Byw yn PCAP/ C1: “Pentre Ifan, Garn Ingli a Chwm Gwaun. Mae gan y lleoedd hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i Gymru. Maen nhw’n parhau i ddal gafael yn iaith a diwylliant Cymru.

| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
|---|---|
| • **Effaith/ Risg gyffredinol** Gall fod cyfleoedd yn y gymuned i bobl ymgysylltu ag eraill yn Gymraeg a helpu i chwalu arwahaniad cymdeithasol a chael effaith gadarnhaol ar lesiant pobl. Gall y Gymraeg chwarae rhan bwysig o ran dod â phobl at ei gilydd mewn gwahanol feysydd: y blynyddoedd cynnar, mentrau iaith, mentrau dysgwyr, corau, digwyddiadau diwylliannol, grwpiau hanes, yr Urdd.<br><br>**Cydnabyddiaeth / Effaith Gadarnhaol**<br><br>• Mae’r Cynllun yn cynnwys y meysydd polisi a chamau gweithredu partneriaeth canlynol a all gefnogi hyn, gan gynnwys:<br>o Polisi H2:<br>Hyrwyddo’r iaith Gymraeg a thafodieithoedd lleol, a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy’n gysylltiedig â’r dirwedd / H2/B Rhannu a dathlu tirwedd, | **Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:**<br>**Fframwaith Partneriaeth**<br><br>Ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy’n gallu helpu i gyflawni’r cynllun o ran polisïau sy’n gysylltiedig â hyrwyddo’r Gymraeg. Mae ymgysylltu ag Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro yn rhoi cyfle i helpu i ddatblygu’r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o’r gwaith o fonitro’r cynllun partneriaeth, a yw’r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth. |

| | |
|---|---|
| treftadaeth ddiwylliannol, hanes naturiol a'r celfyddydau gyda chynulleidfaoedd mwy amrywiol./H2/E Archwilio ffyrdd newydd o fynd ati i gyfuno'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol gyda gweithgareddau'r Awdurdod./ H2/C Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ee Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg./ W2/B Darparu rhaglenni sy'n helpu pobl i brofi'r 5 Ffordd at Les yn y Parc, gan ganolbwyntio ar bresgripsiynu cymdeithasol sy'n seiliedig ar natur a threftadaeth, ee rhaglenni cerdded, mentrau iechyd meddwl, a chefnogi pobl y nodwyd eu bod yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at fanteision iechyd y Parc Cenedlaethol, ee Gwreiddiau i Adferiad. [Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn awgrymu diwygio'r camau gweithredu]/ W2/C Cynnig gwirfoddoli / gwyddoniaeth dinasyddion a chyfleoedd hyfforddi ffurfiol.<br><br>**Ystyriaeth o ganlyniad i newidiadau i'r cynllun drafft**<br><br>Nodwyd bylchau yn y Rhestr o Bartneriaid a grybwyllwyd yn nrafft gwreiddiol y cynllun fael rhan o asesiad cam 1. Roedd hyn yn ehangach na'r cynllun iechyd. Fodd bynnag, yn dilyn adborth fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r strwythur a'r cyfeiriadau at bartneriaid wedi cael eu newid, gan | |

| | |
|---|---|
| ganolbwyntio ar sefydliadau partner, sy’n canolbwyntio ar y rhai sy’n chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o gyflawni ac yna ar y partneriaid cyflawni allweddol. Yn seiliedig ar y rhestr lai, nid yw’n briodol rhestru cynnwys grwpiau ehangach. Fodd bynnag, byddai’n fuddiol ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth sy’n ymwneud â hyrwyddo’r Gymraeg yn y Parc. Er enghraifft: Urdd Gobaith Cymru (yn benodol â gwersyll Pentre Ifan), Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Sir Benfro, grwpiau cymunedol eraill fel Merched y Wawr a CFfI Sir Benfro, lleoliadau diwylliannol, Blynyddoedd cynnar – Mudiad Meithrin Sir Benfro: Cylch Meithrin, Cymraeg i blant, Clwb Cwtsh, Cylch Ti a Fi. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o’r gwaith o fonitro’r cynllun partneriaeth, a yw’r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth. | |

| **Maes sydd angen sylw** | **Cefnogi Dysgwyr – Dysgu Cymraeg/ Meithrin Hyder/ Cyfleoedd i Bobl ddysgu am y Parc yn Gymraeg** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | • Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gwelededd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

**Tystiolaeth neu Fater**

**Tystiolaeth/ Materion a nodwyd yn Asesiad Cam 1**

- Mae gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Llwybrau Dysgu Cymraeg er mwyn helpu pobl i ddysgu Cymraeg wrth grwydro o amgylch y Gerddi. Mae'r Llwybrau wedi'u teilwra ar gyfer Cymraeg y Gogledd a'r De ac maent yn gysylltiedig â lefelau dysgu – mynediad, sylfaen, canolradd, uwch.
- **Safonau ynghylch Hybu'r Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg** (Ffynhonnell: https://www.comisiynyddygymraeg.cymru/media/tz5jfy1u/20181031-gc-safonau-ynghylch-hybur-gymraeg-cymraeg-terfynol.pdf)
    - Yn ei chanllaw arfer da, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi nodi nifer o ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddefnydd unigolion o iaith:
        - Dilyniant - parhad profiadau a chyfleoedd o addysg gynradd i uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i fyd gwaith, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â rhwng profiadau cymdeithasol a chymunedol a rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.
        - Cyfle – mae ansawdd a hwylustod cyfleoedd yn gallu effeithio'n fawr ar ddefnydd a chynnal defnydd o'r iaith i'r dyfodol.

- Agweddau – mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd maen nhw'n gweithredu ar hynny neu ddim, a sut mae pobl ddi-Gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y caiff hyn ei gyfleu a'i ganfod.
- Hyder – mae hyder siaradwyr Cymraeg yn gallu amrywio yn ôl sefyllfa (e.e. ffurfiol ac anffurfiol) ac felly mae angen ystyried sut a ble i dargedu cefnogaeth yn effeithiol

- Pentre Ifan - Dyma wersyll yr Urdd sy'n rhoi blaenoriaeth i'r amgylchedd, lles emosiynol pobl ifanc a'r Gymraeg mewn un profiad preswyl hudolus. Rhwng môr a mynydd yng Ngogledd Sir Benfro mae Gwersyll Pentre Ifan yn y lleoliad perffaith i drwytho pobl ifanc yn yr amgylchedd ac mewn llonyddwch.
- Cynnig addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Cymerodd 1,441 o bobl ran mewn sesiynau rhaglenni dysgu yn Gymraeg yn 2023/24.
- Ystadegau Dysgu Cymraeg 2022-2023, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y sector Dysgu Cymraeg. (Ffynhonnell: Ystadegau 2022 - 2023 | Dysgu Cymraeg )
  - Bu cynnydd yn niferoedd y dysgwyr flwyddyn ar flwyddyn ers 2017-2018. Mae'r flwyddyn 2019-2020 yn eithriad lle'r oedd 17,505 o ddysgwyr unigryw (dyma'r flwyddyn eithriadol pryd gwelwyd cynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd yn dilyn y cyrsiau hunan-astudio ar lefel blasu ar ddechrau cyfnod y pandemig.) Yn 2022-2023, roedd 16,905 o ddysgwyr unigryw, cynnydd o 11% o'i gymharu â 2021-2022.
  - Cymerodd dysgwyr 2022-2023 ran mewn 29,485 o weithgareddau dysgu, cynnydd o 8% o'i gymharu â 2021-2022.
  - Yn 2022-2023, roedd 60% o ddysgwyr ar lefel Mynediad. Roedd 16% ar lefel Sylfaen a 24% ar lefelau Canolradd neu Uwch (gan gynnwys Hyfedredd). Mae'r cyfraddau yn gyson iawn â 2021-2022.
  - Mae 14,275 o ddysgwyr 2022-2023 o fewn yr ystod oedran gweithio (16-64 oed), sydd yn 84% o'r holl ddysgwyr sydd wedi nodi eu dyddiad geni.
  - Mae 2,170 o ddysgwyr 2022-2023 o fewn yr ystod oedran 16-24 oed, cynnydd o 9% o'i gymharu â 2021-2022.
  - Yn 2022-2023 roedd 25% o'n dysgwyr wedi dilyn cyrsiau wyneb yn wyneb, 44% wedi dilyn cyrsiau rhithiol, 5% wedi dilyn cyrsiau cyfunol, 24% wedi dilyn cyrsiau hunan-astudio a 3% wedi dilyn cyrsiau preswyl
  - Yn 2022-2023 roedd 85% o'r dysgwyr unigryw wedi cofnodi gwybodaeth am ethnigrwydd. Roedd 4% o'r dysgwyr hyn wedi cofnodi ethnigrwydd amrywiol gyda 96% wedi cofnodi ethnigrwydd gwyn.
- Mae Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol – Croeso i'r Gymraeg yn cynnig cyrsiau ac adnoddau sydd ar gael trwy gyfrwng ieithoedd gwahanol os yw rhywun yn newydd i Gymru ac yn dymuno dysgu Cymraeg a ddim yn siarad llawer o Saesneg. Gall pobl ddysgu mwy am Gymru trwy ddilyn uned hunan-astudio ar-lein trwy gyfrwng: Wcreineg, Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi, Pashto.
- Data am y Gymraeg yn ôl awdurdod lleol | LLYW.CYMRU (Cynllunio Addysg)

| Tabl 1: Nifer y Cylchoedd Meithrin, nifer y plant sy'n eu mynychu, a'r nifer sy'n trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg o Gylchoedd Meithrin, ar gyfer Sir Benfro, 2015/16 i 2022/23<br>Ffynhonnell: Data Mudiad Meithrin | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | **Nifer y lleoliadau** | **Nifer y Cylchoedd Meithrin [nodyn 3]** | **Nifer y plant sy'n mynychu'r Cylchoedd Meithrin** | **Nifer y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol** | **Nifer y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol cyfrwng Cymraeg** | **Canran y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i ysgol cyfrwng Cymraeg (%)** |
| 2015/16 | 13 | 13 | 309 | 155 | 134 | 86.50% |
| 2016/17 | 13 | 13 | 338 | 156 | 124 | 79.50% |
| 2017/18 | 14 | 16 | 393 | 176 | 152 | 86.40% |
| 2018/19 | 13 | 15 | 401 | 181 | 162 | 89.50% |
| 2019/20 | 13 | 15 | 372 | 204 | 177 | 86.80% |
| 2020/21 | 14 | 17 | 390 | 167 | 152 | 91.00% |
| 2021/22 | 14 | 15 | 431 | 198 | 180 | 90.90% |
| 2022/23 | 14 | 15 | 416 | 139 | 126 | 90.60% |

| Tabl 2: Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio yn y Gymraeg fel iaith gyntaf, ar gyfer Sir Benfro yn 2022/23<br>Mae'r niferoedd yn y tabl hwn wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Dangosir y canrannau i un lle degol.<br>Ffynhonnell: Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | **Blwyddyn ysgol** | **Nifer y disgyblion sy'n astudio yn y Gymraeg fel iaith gyntaf** | **Cyfanswm nifer y disgyblion** | **Canran y disgyblion sy'n astudio yn y Gymraeg fel iaith gyntaf** |
| 2022/23 | Dosbarth meithrin | 310 | 1,245 | 25.10% |
| 2022/23 | Dosbarth Derbyn | 340 | 1,150 | 29.50% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | Blwyddyn 1 | 300 | 1,220 | 24.50% |
| 2022/23 | Blwyddyn 2 | 295 | 1,225 | 24.20% |
| 2022/23 | Blwyddyn 3 | 290 | 1,310 | 22.30% |
| 2022/23 | Blwyddyn 4 | 305 | 1,335 | 22.80% |
| 2022/23 | Blwyddyn 5 | 250 | 1,225 | 20.60% |
| 2022/23 | Blwyddyn 6 | 285 | 1,445 | 19.70% |
| 2022/23 | Blwyddyn 7 | 250 | 1,285 | 19.40% |
| 2022/23 | Blwyddyn 8 | 285 | 1,280 | 22.30% |
| 2022/23 | Blwyddyn 9 | 205 | 1,215 | 17.10% |
| 2022/23 | Blwyddyn 10 | 175 | 1,210 | 14.50% |
| 2022/23 | Blwyddyn 11 | 175 | 1,205 | 14.40% |
| 2022/23 | Blwyddyn 12 | 90 | 330 | 27.00% |
| 2022/23 | Blwyddyn 13 | 80 | 290 | 27.70% |

**Tabl 3: Nifer a chanran y dysgwyr Blwyddyn 11 sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU yn y Gymraeg, yn Sir Benfro ar gyfer 2021/22**
**Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru; Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**

| Blwyddyn academaidd | Wedi cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg | Nifer | Canran |
|---|---|---|---|
| 2021/22 | Cymraeg (iaith gyntaf) | 155 | 12.70% |
| 2021/22 | Cymraeg (ail iaith) | 830 | 67.90% |
| 2021/22 | Heb gofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg | 237 | 19.40% |

**Tabl 4: Nifer a chanran y cofrestriadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg, iaith gyntaf ac ail iaith, yn ôl awdurdod lleol, 2012/13 i 2021/22 [nodyn 8]**
**Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru; Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)**

| Blwyddyn academaidd | Nifer y cofrestriadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg | Canran y cofrestriadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y Gymraeg |
|---|---|---|
| 2012/13 | 80 | 6.20% |
| 2013/14 | 69 | 5.20% |
| 2014/15 | 46 | 3.70% |
| 2015/16 | 49 | 4.70% |
| 2016/17 | 35 | 3.60% |
| 2017/18 | 24 | 3.00% |
| 2018/19 | 13 | 2.20% |
| 2019/20 | 11 | 1.80% |
| 2020/21 | 12 | 1.90% |
| 2021/22 | 12 | 1.80% |

- **Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:** Dysgu Cymraeg
  - ID 11/ Byw yn PCAP/ C2: "Mae angen i ni gefnogi ac annog defnyddio a datblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru."
  - ID 41/ Byw yn PCAP/ C1: "Y ffordd mae natur, ffermio, hanes, iaith a diwylliant Cymru, a'r bobl bellach yn cydblethu." C4: "Er ei fod yn "amhrisiadwy" rhaid bod ffordd i roi gwerth ar y nodweddion hyn, gan gynnwys y gwaith y mae teuluoedd lleol sy'n ffermio yn ei wneud i warchod yr amgylchedd, ac iaith a diwylliant Cymru. Hybu dysgu a defnyddio'r Gymraeg fel yr ased gwych ydy hi mewn gwirionedd. E.e. drwy ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg. Helpu i gyrraedd y targed o siaradwyr Cymraeg. Hyrwyddo deddf cenedlaethau'r dyfodol."
- Mae'r Awdurdod wedi cynnal sesiynau Cymraeg yn y dirwedd.
- Cyngor Sir Penfro – Addysg Cyfrwng Cymraeg (Ffynhonnell: https://www.sir-benfro.gov.uk/gwybodaeth-addysg-cyfrwng-cymraeg)
  - Cymraeg i blant: Grwpiau cyn-geni, grwpiau tylino, grwpiau ioga i fabanod, a grwpiau Stori a Chân
    Clwb Cwtsh: Rhaglen flasu hwyliog sydd wedi'i hanelu at rieni ac aelodau o deulu estynedig, sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Nid oes rhaid i chi allu siarad na deall Cymraeg i ymuno.
    Cylch Ti a Fi: Grwpiau ar gyfer rhieni a phlant bach lle gall eich plentyn fwynhau chwarae a gwneud ffrindiau mewn amgylchedd Cymraeg
  - **Meithrinfeydd**: Mae meithrinfeydd dydd dwyieithog sy'n cyflwyno'r Gymraeg i blant o'r cychwyn cyntaf drwy gynnal gweithgareddau yn Gymraeg a chyfathrebu yn Gymraeg â'r babanod a phlant bach.

Cylch Meithrin – Sesiynau addysg a datblygu ar gyfer plant dwy oed hyd at oed ysgol. Mae cyfle i’r plant gymdeithasu a dysgu

- **Dosbarthiadau meithrin yn yr ysgol:** Mae gan rai o’n hysgolion cyfrwng Cymraeg ddosbarthiadau meithrin
- Pwrpas Canolfannau Iaith yw cynnig cefnogaeth i’r rhai sy'n cael eu cyflwyno i’r Gymraeg yn hwyr fel bod eu gafael ar yr iaith yn eu galluogi i gael mynediad llawn at addysg cyfrwng Cymraeg, ac i gymryd rhan ynddi. Mae ein Canolfannau wedi’u lleoli yn yr ysgol uwchradd ar gyfer y clwstwr - mae un ohonynt yn Ysgol Bro Gwaun yn Abergwaun, un yn Ysgol y Preseli yng Nghrymych, ac un arall yn Ysgol Caer Elen yn Hwlffordd. Maent yn cael eu staffio gan athro cymwysedig sydd â set benodol o sgiliau fel ieithyddion, ac sy’n fodelau rôl ieithyddol rhagorol. Mae pob un o’r tair canolfan iaith yn cynnig cefnogaeth i bobl sy'n hwyr yn cael eu cyflwyno i’r Gymraeg gyda chwrs rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Dyma’r ysgolion sy’n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro: Ysgol Cilgerran - Ysgol Wirfoddol Rheoledig yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Gynradd Arberth, Ysgol Gynradd Cas-mael, Ysgol Cas-blaidd, Ysgol Bro Ingli, Ysgol Clydau, Ysgol Gelli Aur, Ysgol Ger y Llan, Ysgol Glannau Gwaun, Ysgol Gymunedol Brynconin, Ysgol Croesgoch, Ysgol Maenclochog, Ysgol Gymunedol Wdig, Ysgol Eglwyswrw, Ysgol Hafan y Môr, Ysgol Llanychllwydog, Ysgol Llandudoch, Ysgol Bro Preseli, Ysgol Caer Elen

| Effaith/ Risg | Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen |
|---|---|
| **Effaith/ Risg gyffredinol**<br><br>Mae’n bwysig bod plant sy’n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sy’n cael cefnogaeth drwy ganolfannau iaith yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am y Parc yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys ysgolion yn Sir Benfro ac ysgolion sy’n ymweld o’r tu allan i’r awdurdod lleol. Mae gan grwpiau blwyddyn gynnar rôl bwysig o ran cefnogi’r Gymraeg<br>• Mae cyfleoedd yn barod i ddysgu Cymraeg yn Sir Benfro, ac mae’n bwysig hyrwyddo’r cyfleoedd hyn.<br>• A allai cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig o ran | **Recommended Amendment/ Action**:<br><br>• Ongoing Conversation/ Monitoring: Explore how key partners will engage with range of smaller organisations, community groups, support groups who can help delivery of the plan in terms of policies linked to Welsh Language promotion. Engagement with the Eisteddfod 2026 in Pembrokeshire provides an opportunity to help further develop these links. It is also important to consider as part of partnership plan monitoring are their opportunities to set up way of capturing case studies of work of smaller organisations, community and support groups.<br><br>• Ongoing Conversation: As part of H2/E Explore new ways to proactively integrate Welsh language promotion with Authority activities, Authority should consider if stronger connections are needed with Menter Iaith Sir Benfro/ Learn Welsh Pembrokeshire |

| | |
|---|---|
| gweithgareddau a rhaglenni dysgu. A oes cyfleoedd o bosibl i weithio gyda nhw i ddatblygu llwybrau Dysgu Cymraeg ar gyfer y Parc Cenedlaethol (tebyg i Lwybrau Dysgu Cymraeg Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru) sy'n gysylltiedig â lefelau dysgu – mynediad, sylfaen, canolraddol, uwch / cysylltiedig â'r gwaith y mae'r Awdurdod wedi'i wneud yn flaenorol ar y Gymraeg yn y dirwedd.<br><br>**Ystyriaeth o ganlyniad i newidiadau i'r cynllun drafft**<br><br>• Nodwyd bylchau yn y Rhestr o Bartneriaid a grybwyllwyd yn nrafft gwreiddiol y cynllun fel rhan o asesiad cam 1. Roedd hyn yn ehangach na'r cynllun iechyd. Fodd bynnag, yn dilyn adborth fel rhan o'r ymgynghoriad, mae'r strwythur a'r cyfeiriadau at bartneriaid wedi cael eu newid, gan ganolbwyntio ar sefydliadau partner, sy'n canolbwyntio ar y rhai sy'n chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o gyflawni ac yna ar y partneriaid cyflawni allweddol. Yn seiliedig ar y rhestr lai, nid yw'n briodol rhestru cynnwys grwpiau ehangach. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth sy'n ymwneud â hyrwyddo'r Gymraeg yn y Parc, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar. Er enghraifft: Urdd Gobaith Cymru (yn benodol â gwersyll Pentre Ifan), Menter Iaith Sir Benfro, Dysgu Cymraeg Sir Benfro, Sir Benfro, grwpiau cymunedol eraill fel Merched y Wawr a CFfI Sir Benfro, lleoliadau diwylliannol, Blynyddoedd cynnar | – Dysgu Cymraeg Sir Benfro to help to ensure that we are promoting and maximising opportunities they provide in Park area and exploring joint working areas, particularly in terms of community programmes. Examples of activities they provide include: Coffi a chlonc (Coffee and chat), Taith Cerdded (Walks, some of which happen in Park area), Gŵyl y Dysgwyr (Learners Festival). |

| | |
|---|---|
| – Mudiad Meithrin Sir Benfro: Cylch Meithrin, Cymraeg i blant, Clwb Cwtsh, Cylch Ti a Fi. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth.<br>Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig: Coffi a chlonc, Teithiau cerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr. | |

| **Maes sydd angen sylw** | **Twristiaeth Adfywiol/ Hyrwyddo Diwylliant Cymru** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – GweledAs/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol |

| | |
|---|---|
| | • Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gweledd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

**Tystiolaeth neu Fater**

**Tystiolaeth/ Materion a nodwyd yn Asesiad Cam 1**

- **Busnes Cymru – Hyrwyddo Iaith a Diwylliant Cymru** (Ffynhonnell: https://busnescymru.llyw.cymru/twristiaeth/hyrwyddo-iaith-diwylliant-cymru )
  - Naws am le yw'r teimlad rydych chi'n ei gael wrth ymweld â rhywle am y tro cyntaf – yr argraff gyntaf, yr edrychiad, y teimlad, yr awyrgylch, y bobl. Mae naws am le yn cofleidio'r golygfeydd, y sain a'r profiadau unigryw sy'n rhan o wlad, y rhinweddau unigryw a chofiadwy hynny sy'n taro tant gyda phobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd.
  - Yr Iaith Gymraeg - Fel nifer o wledydd eraill, mae dwyieithrwydd yn ffordd o fyw i lawer o bobl yng Nghymru. Mae'r iaith yn ennyn diddordeb ymwelwyr fel arfer, a gallwch chi eu helpu i feithrin mymryn bach o ddealltwriaeth ohoni hyd yn oed os nad ydych chi'n siaradwr Cymraeg eich hun. Gall ymadrodd a nodyn esboniadol yma ac acw atgoffa ymwelwyr o'n diwylliant unigryw sydd â'i hiaith hardd a hynafol ei hun.
    - ➢ Defnyddio platiau enw Cymraeg ar ystafelloedd gwesteion
    - ➢ Nodi enwau dwyieithog ar y toiledau, y gegin, yr ardd ac ati.
    - ➢ Dysgu Cymraeg drwy gofrestru ar gyfer cwrs rhad ac am ddim ar-lein e.e. www.saysomethinginwelsh.com a siarad ag ymwelwyr er mwyn ymgysylltu â nhw
    - ➢ Darparu gwefan ddwyieithog
    - ➢ Cyflwyno bwydlenni dwyieithog
    - ➢ Cefnogi staff sy'n awyddus i ddysgu'r iaith

- **Addewid Tiaki Seland Newydd** (Ffynhonnell: https://www.tiakinewzealand.com/en_NZ/ ). Mae'n rhoi enghraifft o sut i blethu iaith / diwylliant / naws am le o fewn dulliau twristiaeth adfywiol:
  - Mae Tiaki yn golygu gofalu am bobl, lle a diwylliant – "Yn Seland Newydd rydyn ni'n croesawu manuhiri (gwesteion) yn ysbryd manaakitanga (parch, caredigrwydd a lletygarwch). Clywch ein llais. A derbyn ein croeso. Rydyn ni hefyd yn gosod wero (her) i'n hymwelwyr. Her ac ymrwymiad i ofalu am Seland Newydd yw'r wero yma. Y wero yw addewid Tiaki. Rydyn ni'n annog pob ymwelydd i dderbyn y wero yma. I ddilyn Addewid Tiaki. I weithredu fel gwarcheidwad, gan amddiffyn a diogelu ein cartref."
  - Cafodd Tiaki – Gofalu am Seland Newydd ei greu drwy awydd i rannu cysylltiad â'r byd naturiol, ac ysbrydoli a helpu ymwelwyr i deithio'n ddiogel ac yn gydwybodol. Yn Aotearoa Seland Newydd, mae gan bobl gysylltiad cryf â'r ardal o'u cwmpas. Mae Tangata whenua (pobl y tir hwn) yn ystyried bod cysylltiad annatod rhwng natur a'u bywydau eu hunain. I'r Māori, mae gan bob mynydd, pob afon, pob coeden, stori. Mae'r storïau hyn yn rhan o'u hunaniaeth ac yn eu helpu i siapio eu lle yn y byd. Mae Tiaki yn gwahodd pob un ohonom i edrych ar y byd drwy'r lens gynhenid hon. I ffurfio cysylltiad dyfnach â lle, ac i ystyried hyn yn ein hagweddau a'n hymddygiad. Mae ymrwymo i deithio fel hyn yn golygu cadw Addewid Tiaki.
  - Un agwedd ar yr addewid yw Dangos Parch – "Teithio gyda chalon a meddwl agored. Drwy fanteisio ar y cyfle i ddeall ein diwylliant a pharchu ein harferion, byddwch yn cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau rydych chi'n ymweld â nhw. Yn gyfnewid am hynny, fe gaiff pobl Aotearoa Seland Newydd effaith barhaol arnoch."
- **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant 2024 -2030 Llywodraeth Cymru – Mae'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd** (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-05/blaenoriaethau-ar-gyfer-diwylliant-2024-i-2030.pdf )
  - A7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog. – "Mae'r Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan – mae'n rhan o hanes, treftadaeth a thraddodiadau ein cenedl, ac mae'n allweddol i'w dyfodol. Rhaid cydnabod gwerth y Gymraeg, ei hyrwyddo a'i dathlu ar draws pob maes gweithgarwch yn ein sectorau, a gwreiddio hynny. Mae'r cynnig diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi hen ennill ei blwyf ac mae ar gynnydd. Mae'n cynnwys y celfyddydau, llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r diwydiannau perfformio gyda llawer o bartneriaid pwysig gan sicrhau rhaglen fywiog a lleol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, a hyrwyddo cyfranogiad. Mae llawer wedi dweud wrthym fod dysgwyr Cymraeg yn dysgu'n gyflymach neu'n well pan gyflwynir diwylliant yn y Gymraeg iddynt neu pan fyddant yn cael eu haddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Mae ein cymunedau Cymraeg a gwledig yn wynebu heriau a newidiadau strwythurol. Mae pobl ifanc yn allfudo'n barhaus o'r cymunedau hyn, sydd â hanes bywiog o ran hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg, ac mae pobl yn mewnfudo i'r cymunedau hyn o'r tu hwnt i'r ffin. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae'n mynd yn fwyfwy anodd i sicrhau cynaliadwyedd ein gweithgareddau diwylliannol a'n gweithgareddau Cymraeg mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Mae gan strategaeth

Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ddyhead clir o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050, a dylid nodi'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y sector diwylliant. Mae Cynlluniau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn blaenoriaethu'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant fel thema sylfaenol ar draws meysydd blaenoriaeth allweddol fel entrepreneuriaeth, sgiliau ac arloesedd. Rhaid i'r agwedd tuag at ddatblygu economaidd ychwanegu at y cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a dylai hyrwyddo ein diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog gyfrannu at gefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg, gan gynyddu'r cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

  - A13: Codi proffil diwylliant yng Nghymru drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. – "2.5 Dathlu diwylliant. Mae diwylliant yn ganolog i'n harwahanrwydd fel cenedl ac i'n hymdeimlad o fod yn Gymry. Gallwn gofleidio ein hanes, ein treftadaeth, ein hieithoedd a'n traddodiadau ar yr un pryd â chroesawu rhai newydd, gan greu ymdeimlad o genedligrwydd sy'n datblygu'n gyson drwy ddiwylliant. Mae Cymru'n ffodus o gael darpariaeth ddiwylliannol a chreadigol sylweddol ac eang y dylem ei ddathlu, ei fwynhau a'i rannu ag eraill. Mae Dydd Gŵyl Dewi'n parhau i fod yn un o nodweddion allweddol ein calendr diwylliannol. Dylai dathlu ein nawddsant gynnig cyfleoedd amrywiol, cynhwysol a llawn hwyl ledled Cymru ac i'n cymunedau ar wasgar, gan alluogi pawb i fod yn Gymry unigryw gyda'i gilydd, ac fel unigolion. Mae dathliadau rhyngwladol sefydledig fel Diwrnod y Llyfr, Diwrnod Treftadaeth y Byd a Diwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd, a dathliadau mwy diweddar fel Diwrnod Gwerin Ewrop yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i arddangos gwahanol agweddau ar ddiwylliant Cymru. Mae dathliadau a digwyddiadau lleol a chenedlaethol yn rhoi'r cyfle i bobl gefnogi diwylliant, gydag enghreifftiau fel Dydd Miwsig Cymru yn cynnig diwrnod bywiog o ddathlu ar yr un pryd â hyrwyddo cerddoriaeth yn y Gymraeg a dangos sut mae'r sîn gerddoriaeth fyw yn cyfrannu at yr economi gyda'r nos. Mae'n werth dathlu diwylliant, a rhaid i ni barhau i greu a chwilio am gyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i ddathlu diwylliant yng Nghymru yn ei holl ffurfiau gwahanol.

- Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28: Yn gweithredu ar:
  - Codi proffil iaith a diwylliant Cymru. Ychwanegu at y gweithgareddau presennol i integreiddio'r Gymraeg yn fwy eang ar draws yr holl sianeli digidol e.e. Welsh Wednesdays a Dydd Gŵyl Dewi. Gweithio gyda busnesau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu busnesau mewn ffordd sy'n hwyliog, yn ddifyr ac yn hygyrch i ymwelwyr. Roedd enghraifft wych yn ddiweddar gan Coastal Cottages of Pembrokeshire ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2024. Rhoi mwy o gynnwys dwyieithog ar www.visitpembrokeshire.com/cy-gb
- Canolfannau/ Digwyddiadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Mae Oriel y Parc wedi cynnal arddangosfa ddwyieithog Geiriau Diflanedig/ Lost Words - sy'n casglu ynghyd, am y tro cyntaf erioed, gwaith celf gwreiddiol Jackie Morris ochr yn ochr â cherddi Cymraeg wedi'u hysgrifennu gan Mererid Hopwood a cherddi Saesneg gan Robert Macfarlane. Mae Oriel y Parc yn cynnal Parêd Dydd Gŵyl Dewi bob blwyddyn. Mae teithiau cerdded cyfrwng Cymraeg wedi'u cynnwys yn rhaglenni o ddigwyddiadau'r Awdurdod. Roedd Castell Henllys wedi treialu Sesiynau "Profwch yr Oes Haearn" yn y

| | |
|---|---|
| gorffennol, ac mae'n gwerthu amrywiaeth o adnoddau Cymraeg yn ei siop. Fel arfer mae taith gerdded cyfrwng Cymraeg yn cael ei chynnwys bob blwyddyn yn rhaglen yr Awdurdod o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer y cyhoedd.<br>• **Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:** Mae mater yr iaith Gymraeg a'i pherthynas â/ effaith twristiaeth a diwylliant yn cael ei grybwyll mewn rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:<br>  ○ ID 36/ Byw yn PCAP/ C1: Iaith a Diwylliant Cymru". C4: "Mesurau i ddiogelu cadarnleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y parc cenedlaethol, polisïau sy'n ymwneud â thai a llety gwyliau, mwy o swyddi i bobl leol." C6: "Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal. Gyda thargedau Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dau o'n cyd Barciau Cenedlaethol Cymreig - Eryri a Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu'r sefyllfa o ddefnyddio eu gwir hunaniaeth gydag enwau Cymraeg yn unig, a dyrchafu a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith; mae'n ymddangos yn drist bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mynd yn ôl ac yn gwneud i'r gwrthwyneb. Ydyn ni'n plygu i dwristiaid, neu i'r rhai sy'n gweld yr iaith fel anghyfleustra yn "Little England Beyond Wales"? Neu a yw'n bryd i ardal y Preseli a Gogledd Sir Benfro gael yr anrhydedd o gael eu dynodi yn Barc Cenedlaethol unigryw eu hunain?"<br>  ○ ID 42/ Byw yn PCAP/ C1: "Pentre Ifan, Garn Ingli a Chwm Gwaun. Mae gan y lleoedd hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i Gymru. Maen nhw'n parhau i ddal gafael yn iaith a diwylliant Cymru. Mae'r Parc Cenedlaethol wedi'i ddiffinio'n bennaf am ei fuddion i dwristiaid a demograffig economaidd-gymdeithasol newydd sy'n symud i'r Parc. Ond er bod prisiau tai yn clirio'r gymuned frodorol yn economaidd, gallwn barhau i gysylltu â'n gorffennol dwfn drwy fod yn ystyriol yn y mannau hardd hyn." C2: "Mae'r cerddi Cymraeg sydd wedi disgrifio harddwch naturiol y lle hwn......bellach yn cael eu hanwybyddu."<br>  ○ ID 43/ Byw yn PCAP/ C4: "O ran y porwyr, rwy'n ymwybodol iawn bod llawer ohonynt wedi cael eu geni a'u magu yng Nghymru, a bod yr iaith Gymraeg, a'r hanes a'r diwylliant sy'n gysylltiedig â hi, yn ffactor arall sy'n gwneud y Parc yn arbennig." | |
| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
| **Effaith/ Risg gyffredinol**<br><br>• Mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth ddatblygu dulliau twristiaeth adfywiol. Mae'n cynnwys edrych ar sut rydym yn codi ymwybyddiaeth o arwyddocâd y Gymraeg ymysg ymwelwyr ac yn | W1/J Mae gweithio gyda busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i drigolion ac ymwelwyr wedi cael ei gynnwys fel cam gweithredu mewn partneriaeth. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â gweithredu yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan ar Waith gyda busnesau i gynyddu'r |

| | |
|---|---|
| cefnogi ac yn gweithio gyda'r economi ymwelwyr i archwilio ffyrdd o hyrwyddo'r Gymraeg yn y profiadau maent yn eu cynnig i ymwelwyr.<br><br>**Cydnabyddiaeth / Effaith Gadarnhaol**<br><br>• W1/J Mae gweithio gyda busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i drigolion ac ymwelwyr wedi cael ei gynnwys fel cam gweithredu partneriaeth. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â gweithredu o fewn y Cynllun Rheoli Cyrchfan ar "Weithio gyda busnesau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu busnesau mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i ymwelwyr. Roedd enghraifft wych yn ddiweddar gan Coastal Cottages of Pembrokeshire ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2024." | defnydd o'r Gymraeg yn eu busnesau mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i ymwelwyr. |

| **Maes sydd angen sylw** | **Enwau lleoedd/ Enwau nodweddion yn y dirwedd/ Arwyddion** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg |

| | |
|---|---|
| | • Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio’r Gymraeg<br>• Hybu/ gweledadd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg<br>• Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio’r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau’r Gymraeg |

**Tystiolaeth neu Fater**

- **Tystiolaeth/ Materion a nodwyd yn Asesiad Cam 1**

**Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant 2024 -2030 Llywodraeth Cymru – Mae’n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd (Ffynhonnell:** https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2024-05/blaenoriaethau-ar-gyfer-diwylliant-2024-i-2030.pdf
)

- A4: Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd a llesiant cymunedol. - Rydym yn cydnabod bod gan gymunedau eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain, sy’n aml yn gysylltiedig â thirweddau, enwau lleoedd, hanes lleol, adeiladau, gwrthrychau, treftadaeth ddogfennol, mudo, traddodiadau a straeon. Mae ein diwylliant a’n treftadaeth yn amlwg yn ein tirweddau a’n trefluniau, ac mewn llu o adeiladau hanesyddol a henebion hynafol o’n cwmpas. Mae henebion ein gorffennol diwydiannol mwy diweddar yn dangos sut mae Cymru wedi helpu i lunio’r byd modern, ac mae ein parciau cenedlaethol, ein tirweddau dynodedig, ein pentrefi, ein trefi a’n dinasoedd yn llefydd llawn ysbrydoliaeth lle mae ein diwylliant a’n treftadaeth yn cael eu dehongli, eu hyrwyddo, eu dathlu a’u mwynhau.
  ‘Cynefin’ yw diffiniad y Cwricwlwm i Gymru o’r naws hwn am le, gyda’r lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol wedi llunio ac yn parhau i lywio’r gymuned sy’n byw ynddo. Mae rhannu diwylliant yn chwarae rhan allweddol o ran cysylltu pobl, meithrin balchder lleol, ysbrydoli cymunedau a datblygu ymdeimlad o berthyn. Mae sefydliadau cymunedol, o lyfrgelloedd i sefydliadau celfyddydol cymunedol, o wasanaethau archif i amgueddfeydd lleol a grwpiau treftadaeth yn annog ac yn galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus a chreadigol mewn ffordd sy’n cryfhau’r cysylltiad â’u diwylliant a’u treftadaeth leol. Rhaid i ni barhau i greu cyfleoedd ystyrlon i bobl a chymunedau gysylltu drwy ddiwylliant. Mae adfywio sy’n cael ei arwain gan ddiwylliant a threftadaeth yn bwerus ac yn drawsnewidiol.

Mae cael pobl i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ganfod a chefnogi cadwraeth eu hasedau diwylliannol lleol, yn meithrin ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cymuned, yn creu ymdeimlad o stiwardiaeth, ac yn cefnogi llesiant cymunedol.

- **Perci Ni** (Ffynhonnell: https://www.hanesabergwaun.org.uk/neighbourhoods/local-villages/puncheston/prosiect-perci-ni-ysgol-casmael )
  - Yn ystod gwanwyn a haf 2023, bu disgyblion Ysgol Cas-mael yn ymchwilio i enwau hanesyddol y caeau yn yr ardal lle maen nhw'n byw. Wrth weithio ar brosiect 'Perci Ni', maen nhw wedi dysgu sut mae hen enwau yn drysorfa o wybodaeth am y gorffennol. Mae eu geirfa wedi'i chyfoethogi â geiriau sy'n perthyn i hanes amaethyddiaeth yr ardal. Mae enghreifftiau o'r gwaith a gynhyrchwyd ganddynt ar gael drwy ddilyn y ddolen uchod ar safle hanes lleol Abergwaun ac Wdig. – "Dyma enwau'r perci sydd ger yr ysgol – parc bach (cwrt tenis), roft fach (adeiladwyd yr ysgol yma yn 1950-53), roft fawr (cae chwarae), a parc pen wanna. Rydym yn dysgu enwau'r perci sydd ger ein cartrefi hefyd."
- **Eryri – Safoni Enwau Llynnoedd**
  (Ffynhonnell: https://awdurdod.eryri.llyw.cymru/newyddion/erthygl/?id=27606&_gl=1*3qznhf*_ga*MjAxNzQxMTU5NC4xNzE4NzA5NDQ1*_ga_2SRYFPWD50*MTcxODgwNDI2OS4xLjAuMTcxODgwNDI2OS4wLjAuMA. )
  - Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a Chomisiynydd y Gymraeg wedi bod yn cydweithio i safoni rhestr o enwau llynnoedd Eryri.
  - Nod y prosiect peilot yw ymchwilio i'r cyfoeth o enwau daearyddol hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol a'u cofnodi fel eu bod yn cael eu diogelu, ac yn cael eu defnyddio'n eang ar lafar gwlad, ar fapiau ac mewn print, er mwyn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Y rhestr safonol o enwau llynnoedd Eryri yw'r gyntaf o'i bath i gael ei hargymell gan Gomisiynydd y Gymraeg, gyda gwaith bellach ar y gweill i safoni rhestr o enwau rhaeadrau a chopaon Eryri.
  - Wrth safoni'r rhestr, bu Panel Safoni Enwau Lleoedd y Comisiynydd yn ystyried hanes, ystyr a tharddiad yr enwau. At hynny, roedd pwyslais arbennig ar ddefnydd lleol, ac roedd ymgynghori ag unigolion neu arbenigwyr sydd â chysylltiad agos neu wybodaeth leol arbenigol yn rhan annatod o'r broses. Roedd Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol, er enghraifft, yn ffynhonnell werthfawr iawn o dystiolaeth. Daeth i'r amlwg fod nifer o'r enwau wedi'u camsillafu ar fapiau ers blynyddoedd felly roedd y prosiect hwn yn gyfle i'w cywiro. Sefydlwyd egwyddorion hefyd i gynorthwyo â'r gwaith i sicrhau bod yr enwau'n cael eu trin yn gyson ac i sefydlu patrwm ar gyfer ymdrechion safoni yn y dyfodol. Mae gan y Panel ganllawiau safoni cenedlaethol i'w gynorthwyo â'r gwaith safoni, ac o ganlyniad i'r prosiect hwn mae egwyddorion ar y dull a ddefnyddiwyd i ymdrin ag enwau yn y dirwedd wedi'u hychwanegu at y canllawiau.
  - Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cynnal trafodaethau cychwynnol â'r Arolwg Ordnans i geisio sicrhau bod y ffurfiau safonol hyn yn cael eu mabwysiadu wrth ddiweddaru mapiau neu ddeunyddiau eraill. Drwy weithio â'r AO fel y corff sy'n

gyfrifol am fapio daearyddol ar ran Llywodraeth y DU, rydym mewn sefyllfa gryfach i sicrhau bod enwau daearyddol hanesyddol Eryri'n parhau i gael eu defnyddio am genedlaethau lawer.

- Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru hefyd yn cynnwys "Geirfa elfennau enwau lleoedd" - https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/geirfa
- Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i arwyddion.
- Cyngor Sir Penfro – Mae ganddo gyfrifoldeb statudol i enwi a rhifo strydoedd a thai yn y Sir ac i sicrhau bod unrhyw enwau a/neu rifau ar strydoedd ac eiddo newydd neu ddiwygiedig yn cael eu dyrannu'n rhesymegol ac yn gyson. Yng Ngwynedd (Enwi eiddo) maent yn annog defnyddio enwau Cymraeg ar eiddo ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i enwau strydoedd arfaethedig fod yn ddwyieithog oni bai bod y Gymraeg yn cael ei chynnig, wedi'u cyfieithu'n rhwydd i'r Gymraeg a, lle bo hynny'n ymarferol, yn deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol yn yr ardal. Maent yn nodi: "Os ydych chi'n awyddus i newid yr enw presennol, a hynny lle mae'r enw hwnnw yn un gwreiddiol ac wedi bod yn enw ar yr eiddo ers amser maith, yn enwedig os yw'n hen enw Cymreig, byddwn yn gofyn i chi ailystyried. Gallwn ofyn i chi wneud hynny hyd yn oed os yw'r enw newydd yn un Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad terfynol yn nwylo'r perchennog."
- **Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/y-cynllun-tai-cymunedau-cymraeg-html )**
  - Cydnabyddir yn eang bod enwau lleoedd yn rhan gynhenid o dirwedd ddiwylliannol a hanesyddol Cymru, yn lleol ac yn genedlaethol. Maent yn arbennig o bwysig i naws weledol a chlywedol cadarnleoedd y Gymraeg, a chydnabyddwn pa mor bwysig yw hi i drysori'r cyfoeth o enwau lleoedd Cymraeg.
  - Mae sawl math o enw ac mae'r heriau sy'n berthnasol i bob un ychydig yn wahanol. Caiff enwau aneddiadau (er enghraifft, trefi, pentrefi a dinasoedd), er enghraifft, eu safoni gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae eu henwau fel y cyfryw yn rhai sefydledig ac anaml iawn y byddant yn cael eu newid. Ar lefel gymunedol, fodd bynnag, mae yna gyfoeth o enwau ar gyfer nodweddion daearyddol, daliadau tir ac eiddo, gan gynnwys ffermydd a thai. Mae llawer o'r rhain yn hanesyddol, ond maent yn fwy cyfnewidiol nag enwau aneddiadau.
  - Mae newidiadau i enwau tai yn peri pryder ar hyn o bryd. Mae'r canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried y Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol wrth ymdrin â cheisiadau ffurfiol i ailenwi eiddo ag enwau hanesyddol. Mae rhai newidiadau ffurfiol yn digwydd, ond yn aml gall arwydd gael ei osod ar dŷ heb newid ei enw yn swyddogol, neu gall enw busnes gael ei ychwanegu at gyfeiriad sy'n bodoli eisoes. Un o'r pethau cyntaf y mae angen i ni ei wneud a dyma un o argymhellion pwysicaf y Comisiwn Brenhinol yw comisiynu ymchwil i sefydlu union raddfa'r broblem. Ar hyn o bryd mae bylchau mawr yn yr wybodaeth sydd gennym ar draws Cymru, ac mae angen mwy o dystiolaeth nid yn unig am nifer yr enwau sy'n newid, ond hefyd sut, pam a ble maent yn newid. Rydym felly'n blaenoriaethu ymchwil yn y meysydd hyn er mwyn gosod sylfaen i gymryd camau pellach i warchod enwau Cymraeg.
  - Y man cychwyn yn y tymor byr hefyd yw tynnu sylw at fentrau sydd wedi gweithio ar lefel leol i warchod enwau lleoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ymyraethau megis pecynnau croeso, prosesau awdurdodau lleol ar gyfer enwi eiddo newydd ac

ymgyrchoedd gan grwpiau buddiant lleol. Yn ogystal, byddwn yn archwilio sut y gellir hyrwyddo gwerth a phwysigrwydd enwau Cymraeg mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, archwilio sut mae gwahanol awdurdodau lleol yn dehongli eu rôl yn y maes hwn a sut i sicrhau gwell cysondeb rhwng dulliau gweithredu'r awdurdodau lleol, sut i farchnata'r Rhestr Enwau Lleoedd Hanesyddol yn well, a phecynnau croeso a gwybodaeth well i brynwyr eiddo ar draws Cymru.

- **Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:** Roedd mater cyflogaeth, yn enwedig i bobl ifanc, wedi'i godi mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:
  - ID 36/ Byw yn PCAP/ C1: Iaith a Diwylliant, Treftadaeth ac Archeoleg, Bioamrywiaeth a Bywyd Gwyllt Cymru." C3: "Ail gartrefi ac Airbnbs, Seisnigo, gormod o dwristiaeth," C4: "Mesurau i ddiogelu cadarnleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y parc cenedlaethol, polisïau sy'n ymwneud â thai a llety gwyliau, mwy o swyddi i bobl leol, mwy o gefnogaeth ac arian i dirfeddianwyr i gefnogi ymyriadau cadarnhaol yn y dirwedd a buddion amgylcheddol." C6: "Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal. Gyda thargedau Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dau o'n cyd Barciau Cenedlaethol Cymreig - Eryri a Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu'r sefyllfa o ddefnyddio eu gwir hunaniaeth gydag enwau Cymraeg yn unig, a dyrchafu a hyrwyddo'r diwylliant a'r iaith; mae'n ymddangos yn drist bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mynd yn ôl ac yn gwneud i'r gwrthwyneb. Ydyn ni'n plygu i dwristiaid, neu i'r rhai sy'n gweld yr iaith fel anghyfleustra yn "Little England Beyond Wales"? Neu a yw'n bryd i ardal y Preseli a Gogledd Sir Benfro gael yr anrhydedd o gael eu dynodi yn Barc Cenedlaethol unigryw eu hunain?"
  - ID 11/ Byw yn PCAP/ C2: "Mae angen i ni gefnogi ac annog defnyddio a datblygu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru."
  - ID 41/ Byw yn PCAP/ C1: "Y ffordd mae natur, ffermio, hanes, iaith a diwylliant Cymru, a'r bobl bellach yn cydblethu." C4: "Er ei fod yn "amhrisiadwy" rhaid bod ffordd i roi gwerth ar y nodweddion hyn, gan gynnwys y gwaith y mae teuluoedd lleol sy'n ffermio yn ei wneud i warchod yr amgylchedd, ac iaith a diwylliant Cymru. Hybu dysgu a defnyddio'r Gymraeg fel yr ased gwych ydy hi mewn gwirionedd. E.e. drwy ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg."
  - ID 42/ Byw yn PCAP/ C1: "Pentre Ifan, Garn Ingli a Chwm Gwaun. Mae gan y lleoedd hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i Gymru. Maen nhw'n parhau i ddal gafael yn iaith a diwylliant Cymru
  - ID 43/ Byw yn PCAP/ C4: "O ran y porwyr, rwy'n ymwybodol iawn bod llawer ohonynt wedi cael eu geni a'u magu yng Nghymru, a bod yr iaith Gymraeg, a'r hanes a'r diwylliant sy'n gysylltiedig â hi, yn ffactor arall sy'n gwneud y Parc yn arbennig."

| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
| --- | --- |

| | |
|---|---|
| **Effaith/ Risg gyffredinol**<br><br>• Mae arwyddion a phaneli dehongli dwyieithog yn y Parc, ochr yn ochr â chefnogi Safonau'r Gymraeg, yn sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg ac mae hefyd yn sicrhau bod yr iaith yn fwy amlwg i bobl ddi-Gymraeg/ ymwelwyr. Mae'n bwysig bod enwau daearyddol hanesyddol yn cael eu diogelu, ac yn cael eu defnyddio'n eang ar lafar gwlad, ar fapiau ac mewn print, er mwyn eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru) yn chwarae rôl bwysig wrth gefnogi hyn. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Ysgol y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd a Chomisiynydd y Gymraeg wedi bod yn cydweithio i safoni rhestr o enwau llynnoedd Eryri.<br><br>**Cydnabyddiaeth / Effaith Gadarnhaol**<br>H1/K Wrth ddathlu a gwarchod enwau lleoedd, ee enwau caeau, fe ddylai hynny helpu i ddiogelu enwau daearyddol hanesyddol yn y Parc. | H1/K Wrth ddathlu a gwarchod enwau lleoedd, ee enwau caeau, fe ddylai hynny helpu i ddiogelu enwau daearyddol hanesyddol yn y Parc. |

| **Maes sydd angen sylw** | **Cymunedau Cynaliadwy lle gall y Gymraeg ffynnu** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg |
| **Tystiolaeth neu Fater** | |
| **Evidence/ Issues identified in Stage 1 Assessment** | |

- **Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg (Ffynhonnell: [https://www.llyw.cymru/y-cynllun-tai-cymunedau-cymraeg-html](https://www.llyw.cymru/y-cynllun-tai-cymunedau-cymraeg-html) )**
    - Mae angen cynnal economi gref yn ogystal â bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu. Un o'r prif heriau y mae cymunedau Cymraeg, gwledig ac arfordirol yn ei hwynebu yw'r ffaith bod pobl ifanc yn gadael yn barhaus. Mae Adroddiad Interim Arfor yn adlewyrchu'r ffaith bod y mudo hwn yn fater cymhleth. Ni fydd pob person ifanc eisiau aros yn ei ardal, ond mae angen sicrhau bod y dewis i aros ar gael iddynt, a bod y cyfleoedd i ddychwelyd hefyd ar gael i'r rhai sydd wedi gadael am eu prifysgol neu i gael profiadau gwaith.
    - Mae'r pwyslais ar weithio o bell a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sgil y pandemig yn creu cyfle o ran hybiau gwaith cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Gallai'r rhain gefnogi pobl i weithio'n agosach i gartref, a chreu'r amodau cywir a'r cyfleoedd i bobl sydd am ddychwelyd i'r ardaloedd lle cawsant eu magu.
    - Mae rhaglen beilot Arfor wedi treialu ymyraethau niferus, er enghraifft rhaglen Llwyddo'n Lleol, a gefnogodd bobl ifanc i feithrin y sgiliau angenrheidiol a'r hyder i ddechrau busnesau yn eu cymunedau. Gwelwyd diddordeb arbennig mewn cynlluniau grantiau busnes yng Ngheredigion ymhlith pobl ifanc a oedd wedi'i chael yn anodd cael gafael ar gyfalaf i ddechrau eu mentrau eu hunain. Yn yr un modd, grymuswyd mentrau cymdeithasol lleol gan gynllun Cymunedau Mentrus i ddatblygu dulliau newydd ac arloesol i wneud cymunedau yn fwy cynaliadwy. Roedd cyllid Arfor yn help i droi syniadau yn brosiectau, gan sicrhau bod yr arian yn cael ei gylchredeg yn lleol yn ogystal â chreu cyfleoedd gwaith newydd.
    - Mae mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol eisoes yn rhan bwysig o'r dirwedd gymdeithasol ac economaidd yng Nghymru. Rydym wedi hen arfer â chymunedau yn dod ynghyd i ddiogelu amwynderau a gwasanaethau lleol, yn ogystal ag elwa ar adnoddau naturiol sy'n dod â buddion economaidd i gymunedau lleol. Ceir enghreifftiau o fentrau cymdeithasol cymunedol: Cwmni Bro Ffestiniog, Partneriaeth Ogwen a Galeri yng Nghaernarfon, sy'n dangos sut y gall mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol gefnogi a darparu gwasanaeth gwerthfawr i ardal. Y Gymraeg yw iaith gwaith y sefydliadau hyn – yn ffurfiol ac yn anffurfiol, – ac maent yn cynnig cyfleoedd gwaith o ansawdd o ran polisïau cyflog a gwaith teg, gan gefnogi'r economi leol a diogelu gwasanaethau cymunedol hanfodol.
    - Gall y model tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned helpu cymunedau, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion ar gyfer eu cymunedau. Gall y modelau hyn greu cartrefi fforddiadwy yn unol ag anghenion penodol y gymuned, ac yn bwysicach fyth maent yn eiddo i'r gymuned. Gall y model tai cydweithredol a thai a arweinir gan y gymuned ddatblygu cartrefi newydd sbon yn ogystal â phrynu a datblygu eiddo o fewn y stoc dai bresennol – yn enwedig eiddo gwag neu dai nad oes fawr o alw amdanynt. Rydym eisoes yn darparu cefnogaeth i grwpiau tai a arweinir gan y gymuned drwy gyfrwng y rhaglen Cymunedau'n Creu Cartrefi, a weithredir gan Cwmpas, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi tai cydweithredol, mentrau a arweinir gan y gymuned ac ymddiriedolaethau tir cymunedol fel sydd wedi'i nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu.
- **Strategaeth Gymraeg Cyngor Sir Penfro – Y farchnad dai a chynllunio**

- Cyfeiriadau at Ail Gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/ail-gartrefi-datblygu-polis%C3%AFau-newydd-yng-nghymru_0.pdf )
- “Cyflwynwyd tystiolaeth yn yr adroddiad hwn mai problem ranbarthol yw’r broblem ail gartrefi yng Nghymru sy’n effeithio ar bedwar cyngor sir yn fwy na’r un arall, sef Gwynedd, Sir Benfro, Ynys Môn a Cheredigion. Mae tri o’r cynghorau hyn ymhlith y pedwar cyngor sir a ystyrir yn ‘graidd’ tiriogaethol y Gymru Gymraeg draddodiadol, ac mae Sir Benfro hefyd yn cynnwys cymdogaethau sy’n sensitif yn ieithyddol yng ngogledd y sir. . . Mae’n briodol felly fod Llywodraeth Cymru yn ystyried ail gartrefi fel problem o bwys o safbwynt cynllunio ieithyddol. “ . . . bydd angen polisïau newydd mewn llawer iawn mwy o feysydd nag ail gartrefi yn unig os yw cymunedau Cymraeg am gael eu sefydlogi dros y degawd neu ddau nesaf. Mae’r rhagdybiaeth y bydd Brexit a Covid-19 yn arwain at alw cynyddol am ail gartrefi yn y blynyddoedd nesaf yn golygu mai dyletswydd yw cael ymyrraeth polisi cyhoeddus er mwyn ceisio rhwystro twf afreolus yn eu niferoedd. Bydd mynd i’r afael â hyn yn llesol i’r Gymraeg ymhob cymuned Gymraeg lle maent yn rhan sylweddol o’r stoc dai, ac yn bwysig hefyd o ran cyfiawnder cymdeithasol. “Fodd bynnag, o ystyried yr ardaloedd Cymraeg traddodiadol fel rhanbarth sy’n rhannu llawer o’r un nodweddion economaidd-gymdeithasol, cymdeithasol a diwylliannol, gwelir fod yr heriau’n llawer ehangach na bygythiad ail gartrefi. Maent yn cynnwys: ▪ diboblogi pellach ar y gymuned Gymraeg yn sgil ailstrwythuro economaidd wedi Covid-19 a Brexit ▪ gwrth-drefoli yn sgil twf mewn arferion economaidd fel ‘gweithio o’r cartref’ a allai arwain o ganlyniad at newid cyfansoddiad ieithyddol cymunedau ▪ crebachu pellach ar y sector gyhoeddus oherwydd toriadau tebygol i gyllidebau yn sgil Covid-19 a Brexit, ac effaith anghymesur hyn ar y boblogaeth Gymraeg oherwydd tuedd siaradwyr Cymraeg i gronni mewn rhai sectorau yn fwy na rhai eraill ▪ crebachu posib ar y sector amaethyddol yn sgil Brexit, a’r posibiliad yn yr hirdymor y gall natur perchnogaeth tir yng nghefn gwlad newid mewn ffordd sylfaenol gan beri newidiadau dirfawr i wead y gymdeithas Gymraeg”. Daw’r adroddiad i’r casgliad mai mater lleol yw bygythiad ail gartrefi ar y Gymraeg. Mae’r adroddiad yn trafod nifer o ymyriadau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol posibl, gan gynnwys: “1. Polisi cynllunio sy’n ymwneud yn uniongyrchol ag ail gartrefi, er enghraifft wrth osod cyfyngiadau ar ddefnydd o dai annedd fel ail gartrefi. 2. Polisi cynllunio sy’n ymwneud yn anuniongyrchol ag ail gartrefi, er enghraifft trwy fabwysiadu polisïau o ran tai fforddiadwy neu sy’n gosod cyfyngiadau perchnogaeth leol ar eiddo. 3. Polisi trethiannol sy’n ymwneud ag ail gartrefi.”

- **Strategaeth Hyrwyddo’r Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (Ffynhonnell: (**Ffynhonnell: https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2024/01/Final-Welsh-Language-Strategy-2023-2028-Cymraeg.pdf )
  - Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod yn cydnabod ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg fel un o Nodweddion Arbennig y Parc (Polisi 8). Bydd Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg fel arfer yn berthnasol mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref sydd â 19.2% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, fel y clustnodir yn y

Cyfrifiad. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 clustnodwyd yr ardaloedd canlynol fel Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Lleol 2: Crymych, Cwm Gwaun, Dinas, Eglwyswrw, Abergwaun ac Wdig, Cas-lai, Llanrhian, Llawhaden, Maenclochog, Mathri, Mynachlog-ddu, Nanhyfer, Trefdraeth, Pen-caer, Cas-mael, Solfach, Tyddewi a Llandudoch.

- Amcan 3: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg bob dydd ar draws pob rhan o'r Parc Cenedlaethol
  - Cyflawni: Ni fydd datblygiad a fyddai'n arwain at effaith andwyol annerbyniol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei ganiatáu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg a glustnodir ym Mholisi 13 o'r Cynllun Datblygu Lleol 2
  - Cyflawni: Byddwn yn cyfrannu at gydnerthedd ieithyddol cymunedau drwy gynllunio darparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael ag anghenion lleol a'r math a chymysgedd priodol o dai cyffredinol o fewn y Parc, a byddwn yn ystyried defnyddio polisïau gosod tai lleol cymunedau gwledig ar safleoedd eithriedig gwledig

- **Mae'r adran "Ble ydyn ni nawr" o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol drafft yn nodi'r canlynol o dan Cyflwr y Parc - Llesiant Economaidd-Gymdeithasol**:
  - Mae heriau penodol o ran darparu swyddi a thai, yn enwedig i bobl ifanc. Mae prisiau tai a rhenti yn y Parc Cenedlaethol yn sylweddol uwch na gweddill Sir Benfro. Roedd y pris gwerthu canolrif ar gyfer tai yn y Parc Cenedlaethol yn 2023 9.67 gwaith y cyflog canolrifol. Ym mis Mawrth 2024, roedd 5,238 aelwyd ar Restr Aros am Dai Sir Benfro (heb gynnwys trosglwyddiadau). Yng Nghyfrifiad 2011, roedd gan y Parc Cenedlaethol un o'r cyfraddau uchaf o ddefnydd ail gartrefi / cartref gwyliau o'i stoc dai gyffredinol yng Nghymru a Lloegr, sef 27.7%. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar fforddiadwyedd tai a chefnogaeth i gyfleusterau lleol.
  - Er ei bod yn ymddangos nad oes prinder cyfleoedd cyflogaeth yn Sir Benfro, mae'r swyddi sydd ar gael yn aml yn talu cyflogau isel (mae dros 25% o weithwyr amser llawn yn ennill llai na £18,000 y flwyddyn yn 2017) ac yn dymhorol (mae cyfraddau hawlwyr budd-daliadau dros y gaeaf bron ddwywaith y rhai ar gyfer yr haf).
  - Mae'r heriau sy'n wynebu cymunedau lleol o ran tai yn amlwg iawn ac mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cydnabod pwysigrwydd darparu tai fforddiadwy yng Nghynllun Datblygu Lleol 2 a sicrhau swyddi a chartrefi i gymunedau lleol o fewn y cyd-destun ehangach o warchod y dirwedd. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn sicrhau, drwy ei wasanaeth cynllunio a'i adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol, bod polisïau tai ac economaidd priodol ar waith i gefnogi datblygiadau cynaliadwy. Mae partneriaid fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chwmnïau adeiladu yn hanfodol i sicrhau datblygiadau o ansawdd uchel yn yr amgylchedd sensitif hwn. Gall sicrhau bod swyddi lleol a thai ar gael helpu i gadw siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau sensitif i iaith. Gall defnyddio polisïau gosod lleol, ar gyfer safleoedd tai fforddiadwy eithriedig, hefyd helpu i leihau'r posibilrwydd o effaith ar yr iaith.
- **Ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:** Roedd mater cyflogaeth, yn enwedig i bobl ifanc, wedi'i godi mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad ar Nodweddion Arbennig:
  - ID 36/ Byw yn PCAP/ C1: Yr iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru." C3: "Ail gartrefi ac Airbnbs, Seisnigo, gormod o dwristiaeth" C4: "Mesurau i ddiogelu cadarnleoedd iaith a diwylliant Cymru yn y parc cenedlaethol, polisïau sy'n ymwneud

â thai a llety gwyliau, mwy o swyddi i bobl leol, mwy o gefnogaeth ac arian i dirfeddianwyr i gefnogi ymyriadau cadarnhaol yn y dirwedd a buddion amgylcheddol.” C6: “Hoffwn obeithio y byddai un o amcanion y Parc Cenedlaethol, ynghyd â gwarchod a hyrwyddo rhinweddau tirwedd eithriadol yr ardal hefyd yn ymestyn i warchod a hyrwyddo’r iaith Gymraeg, treftadaeth a diwylliant ein hardal. Gyda thargedau Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â dau o’n cyd Barciau Cenedlaethol Cymreig - Eryri a Bannau Brycheiniog yn mabwysiadu’r sefyllfa o ddefnyddio eu gwir hunaniaeth gydag enwau Cymraeg yn unig, a dyrchafu a hyrwyddo’r diwylliant a’r iaith; mae’n ymddangos yn drist bod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi mynd yn ôl ac yn gwneud i’r gwrthwyneb.
Ydyn ni'n plygu i dwristiaid, neu i'r rhai sy'n gweld yr iaith fel anghyfleustra yn "Little England Beyond Wales"? Neu a yw'n bryd i ardal y Preseli a Gogledd Sir Benfro gael yr anrhydedd o gael eu dynodi yn Barc Cenedlaethol unigryw eu hunain?”
    - ID 41/ Byw yn PCAP/ C1: “Y ffordd mae natur, ffermio, hanes, iaith a diwylliant Cymru, a'r bobl bellach yn cydblethu.” C4: “Er ei fod yn “amhrisiadwy” rhaid bod ffordd i roi gwerth ar y nodweddion hyn, gan gynnwys y gwaith y mae teuluoedd lleol sy'n ffermio yn ei wneud i warchod yr amgylchedd, ac iaith a diwylliant Cymru. Hybu dysgu a defnyddio’r Gymraeg fel yr ased gwych ydy hi mewn gwirionedd. E.e. drwy ddefnyddio enwau lleoedd Cymraeg. Helpu i gyrraedd y targed o siaradwyr Cymraeg. Hyrwyddo deddf cenedlaethau’r dyfodol.”
    - ID 42/ Byw yn PCAP/ C1: “Pentre Ifan, Garn Ingli a Chwm Gwaun. Mae gan y lleoedd hyn arwyddocâd diwylliannol dwfn i Gymru. Maen nhw’n parhau i ddal gafael yn iaith a diwylliant Cymru. Mae’r Parc Cenedlaethol wedi’i ddiffinio’n bennaf am ei fuddion i dwristiaid a demograffig economaidd-gymdeithasol newydd sy’n symud i’r Parc. Ond er bod prisiau tai yn clirio’r gymuned frodorol yn economaidd, gallwn barhau i gysylltu â’n gorffennol dwfn drwy fod yn ystyriol yn y mannau hardd hyn.” C3: “Marchnad dai heb reolaeth a swyddfa gynllunio’r parc cenedlaethol sy’n methu â deall ei rhwymedigaeth statudol i ddiogelu anghenion tai pobl leol.” C4: “Mae angen i gynllunwyr y Parc Cenedlaethol ddeall mor fregus yw’r gymuned Gymreig ac ymgysylltu’n briodol â rhanddeiliaid ac ymgyrchwyr i archwilio ffyrdd o ddarparu cartrefi i bobl leol dros y farchnad dai benrhydd.”
- **Asesiad Llesiant Sir Benfro** (Ffynhonnell: https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/asesiad-llesiant )
  Mae’r canfyddiadau allweddol o'r asesiad yn cynnwys:
    - Mae trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn rhwystro pobl rhag cael gafael ar wasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth
    - Mae'r cyfraddau tlodi plant yn Sir Benfro yn annerbyniol
    - Mae tlodi mewn gwaith yn broblem sy'n fwyfwy cyffredin
    - Mae costau byw yn codi ledled y DU, gyda mwy o deuluoedd sy’n gweithio yn wynebu tlodi
    - Mewn rhai sectorau, mae’r cyflogau yn Sir Benfro yn gymharol isel o’u cymharu â siroedd cyfagos
    - Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym nad ydynt yn hyderus y byddant yn gallu byw a gweithio yn Sir Benfro yn y dyfodol
    - Teimlir bod argaeledd a fforddiadwyedd tai yn Sir Benfro yn rhwystro pobl ifanc rhag aros yn y sir.

- Mae nifer sylweddol o ail gartrefi yn y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
  - Mae diffyg tai fforddiadwy yn y sir.
  - Rhagwelir y bydd yr angen am gartrefi fforddiadwy yn cynyddu.
  - Rydym yn gweld mwy a mwy o deuluoedd yn dod yn ddigartref yn y sir.
- **Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cymru**
  (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12_0.pdf )
  - 4.2.35 Mae'n rhaid ystyried darparu safleoedd eithriedig tai fforddiadwy er mwyn helpu i fodloni gofynion dynodedig a sicrhau hyfywedd y gymuned leol. Os credir bod y cyfryw bolisïau yn briodol, dylid nodi yn eglur bod rhyddhau safleoedd tai mewn aneddiadau presennol, neu am y ffin â hwy, sef safleoedd na chaent eu neilltuo fel arall yn y cynllun datblygu, at ddiben datblygu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol, yn eithriad i'r polisïau ar gyfer y ddarpariaeth gyffredinol o dai. Rhaid cyfiawnhau polisïau o'r fath yn llawn gan nodi'r math o angen a'r math o ddatblygiad sy'n dod o fewn eu telerau. Dylai'r tai fforddiadwy a ddarperir ar y cyfryw safleoedd ddiwallu anghenion pobl leol am byth.
  - 3.28 Gall ystyriaethau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gael sylw gan benderfynwyr cyn belled â'u bod yn berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Ni ddylai polisïau a phenderfyniadau gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion yn seiliedig ar eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli deiliadaeth tai ar sail ieithyddol.
  - 4.2.13 Hefyd, dylai awdurdodau cynllunio nodi ble y bydd angen posibl am ymyraethau er mwyn darparu'r cyflenwad tai, gan gynnwys ar gyfer safleoedd penodol. Mae'n rhaid sicrhau bod digon o safleoedd ar gael sy'n addas i bob math o dai er mwyn diwallu anghenion dynodedig cymunedau, gan gynnwys anghenion pobl hŷn a phobl ag anableddau. Yn y cyswllt hwn, dylai awdurdodau cynllunio hyrwyddo cymunedau deiliadaeth gymysg preswyl cynaliadwy gyda thai 'dirwystr', er enghraifft, tai sydd wedi'u hadeiladu'n unol â safonau Cartrefi Gydol Oes i alluogi pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain am hirach.
- **Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd, Llywodraeth Cymru, (2016**)
  (Ffynhonnell: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf )
  - **Pennu Blaenoriaethau**
  - 3.41 Mae Adran 167(2A) o Ddeddf 1996 yn caniatáu i gynlluniau dyrannu wneud darpariaeth ar gyfer pennu blaenoriaethau mewn perthynas ag ymgeiswyr sy'n dod o fewn y categorïau ffafriaeth resymol, ac mae'n nodi bod y ffactorau y gall y cynllun ganiatáu eu hystyried yn cynnwys:

    (a) yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r ymgeisydd i fodloni ei gostau tai (e.e. byddai Awdurdod Lleol yn gallu rhoi llai o flaenoriaeth i ymgeisydd sy'n gallu sicrhau llety yn ariannol drwy brynu neu rentu'n breifat)

    (b) unrhyw ymddygiad gan yr ymgeisydd (neu aelod o'i aelwyd) sy'n effeithio ar ei addasrwydd i fod yn denant, nad yw'n benderfyniad o ran anghymhwyster neu ddileu ffafriaeth – gweler adran 2.29)

(c) unrhyw gysylltiad lleol (o fewn ystyr adran 81 o Ddeddf 2014) sy'n bodoli rhwng yr ymgeisydd ac ardal yr awdurdod lleol. (O dan A.81 mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod lleol os oes ganddo gysylltiad am ei fod yn byw yno fer arfer (naill ai nawr neu yn y gorffennol) o'i ddewis ei hun, os yw'n cael ei gyflogi yno, os oes ganddo gysylltiadau teuluol yno neu os oes amgylchiadau arbennig). Pan fydd yr amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny; gall darparwyr tai gadarnhau bod yr hawliad o ran cysylltiad lleol yn ddilys â'r sawl yr honnir bod cysylltiad. Nid yw preswylfa arferol mewn ardal yn ddewis yr unigolyn ei hun os yw'n ganlyniad i gael ei gadw yn y carchar. (gweler Atodiad 7). At ddibenion Deddf 2014, mae aelodau sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a phobl eraill sydd fel arfer yn byw gyda nhw fel rhan o'u haelwyd, yn sefydlu cysylltiad lleol gydag ardal yn rhinwedd gwasanaethu yno tra yn y Lluoedd Arfog, neu os ydynt wedi gwneud hynny yn y gorffennol. Dylai polisïau cysylltiad lleol gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ni ddylid eu defnyddio mewn ffordd sy'n amharu ar roi ffafriaeth resymol gyffredinol i bersonau a nodir yn a.167(2) o Ddeddf 1996. Efallai y bydd rhai Awdurdodau Lleol yn dymuno rhoi mwy o flaenoriaeth i gysylltiad lleol er mwyn i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal neu sydd â chysylltiadau teuluol agos gael mwy o gyfle i gael eu hailgartrefu nag ymgeiswyr eraill mewn angen. Er na all Awdurdodau Lleol eithrio pobl nad oes ganddynt gysylltiad lleol, nid oes unrhyw beth i'w hatal rhag cynnwys cysylltiad lleol fel blaenoriaeth polisi yn eu cynllun dyrannu, ar yr amod bod y cynllun yn gyffredinol yn parhau i fodloni'r gofynion ffafriaeth resymol yn a.167(2) o Ddeddf 1996. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu mewn lleoliadau gwledig sy'n ceisio hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedol a'r iaith Gymraeg.

- 3.42 Byddai'n arfer da i geisiadau gael eu derbyn gan y rheini sy'n byw dan drefniadau sefydliadol ar hyn o bryd lle mae ganddynt gysylltiad â'r ardal a lle mae eu dyddiad rhyddhau yn hysbys ac nad yw'n afresymol o bell o ddyddiad y cais. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n gadael y lluoedd arfog, carcharorion, pobl sy'n gadael gofal a chleifion ysbytai.

- **Polisïau Lleol ar gyfer Gosod Tai**
  - 3.68 Mae Adran 167(2E) o Ddeddf 1996 yn galluogi Awdurdodau Lleol i ddyrannu llety i bobl o ddisgrifiad penodol, p'un a ydynt yn dod o fewn y categorïau ffafriaeth resymol ai peidio, ar yr amod bod yr Awdurdod Lleol yn gallu dangos, ar y cyfan, ei fod yn cydymffurfio â gofynion adran 167. Dyma'r sail statudol ar gyfer 'polisïau lleol ar gyfer gosod tai'. Gallai hyn olygu neilltuo neu roi blaenoriaeth i bobl o ddisgrifiad penodol, p'un a ydynt yn dod o fewn y categorïau ffafriaeth resymol ai peidio ac i fathau penodol o eiddo neu i'r rheini ar ystâd neu mewn ardal.
  - 3.69 Gellir defnyddio polisïau lleol ar gyfer gosod tai i fynd i'r afael â nifer o faterion megis:
    - Creu cymunedau mwy cymysg,
    - Delio â chrynodiad o amddifadedd,
    - Sicrhau bod eiddo sy'n arbennig o addas i'w wneud yn hygyrch (e.e. fflatiau ar y llawr gwaelod) yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y rhai ag anghenion mynediad,
    - Adleoli gweithwyr hanfodol fel athrawon, nyrsys a swyddogion yr heddlu o fewn pellter teithio rhesymol i'w gwaith,

- Cefnogi pobl mewn gwaith, hyfforddiant neu wirfoddoli, neu bobl sy'n chwilio am waith neu gyfleoedd gwirfoddoli,
- Ymdrin mewn ffordd sensitif â gosod tai mewn ardaloedd gwledig er mwyn cynnal cymunedau drwy roi blaenoriaeth i'r rhai sydd â chysylltiad lleol â'r ardal leol,
- Cynnal cymunedau Cymraeg drwy roi blaenoriaeth i'r rhai mewn angen o ran tai gyda chysylltiad lleol â'r ardal,
- Ystyried anghenion gweithwyr symudol fel y rhai yn y lluoedd arfog.
- Gellid gostwng cymarebau plant i oedolion ar ystâd lle mae dwysedd plant yn uchel neu, ar y llaw arall, gellid integreiddio pobl ifanc sengl mewn ystâd drwy ddilyn y llwybr hwn. Dylid ystyried a thynnu sylw darpar denantiaid at gyfyngiadau budd-daliadau lles ar danfeddiannaeth.
- Tanfeddiannaeth yn sgil Deddf Diwygio Lles 2012. O fis Ebrill 2013, roedd pob tenant o oedran gweithio a oedd yn rhentu gan Awdurdod Lleol, Cymdeithas Dai neu landlord cymdeithasol cofrestredig arall yn derbyn Budd-dal Tai yn seiliedig ar nifer y bobl yn yr aelwyd a maint y llety.

➢ 3.70 Mae rhai Cymdeithasau Tai ar y cyd ag Awdurdodau Lleol wedi defnyddio polisïau lleol ar gyfer gosod tai i ddyrannu tai cymdeithasol newydd mewn ardaloedd gwledig er mwyn rhoi blaenoriaeth i bobl leol, yn enwedig lle mae'r cynllun wedi digwydd o ganlyniad i gydweithio rhwng partneriaid fel Awdurdodau Lleol, Cymdeithasau Tai, Galluogwyr Tai Gwledig a neu Gynghorau Cymuned gwledig.

➢ 3.71 Wrth ddefnyddio polisïau lleol ar gyfer gosod tai, bydd angen i Awdurdodau Lleol sicrhau bod y cynllun yn gweithredu i roi ffafriaeth resymol i ddyrannu i ymgeiswyr yn y categorïau ffafriaeth resymol (adran 167(2) o Ddeddf 1996). Mae hyn yn golygu y gall cynllun dyrannu gynnwys blaenoriaethau polisi eraill fel hyrwyddo symud sy'n ymwneud â'r swydd ac ati, ar yr amod:
  - Nad ydynt yn dominyddu'r cynllun ac
  - Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn gweithredu i roi ffafriaeth resymol i'r rhai yn y categorïau ffafriaeth resymol statudol dros y rhai nad ydynt.

- 3.72 Dylai polisïau lleol ar gyfer gosod tai fod â nodau clir sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd cymunedol a chael eu cefnogi gan dystiolaeth glir o'r angen am y dull gweithredu. Hefyd, dylai gweithdrefnau fod ar waith i sicrhau bod polisïau lleol yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac yn eu llywio. Pan fydd amcanion neu flaenoriaethau 'cynaliadwyedd' a 'diwallu anghenion tai' yn gwrthdaro, dylai trefniadau fod ar waith i sicrhau y rhoddir ystyriaeth bellach i'r mater a bod penderfyniad yn cael ei wneud mewn perthynas ag ef. Fodd bynnag, yn gyffredinol dylai strategaethau nodi paramedrau ar gyfer polisïau lleol ar gyfer gosod tai nad ydynt yn atal Awdurdod Lleol rhag cyflawni ei ddyletswyddau statudol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai hyn gynhyrchu amcanion polisi croes, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae galw mawr lle nad yw'r awdurdod o bosibl yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol a chael cynlluniau lleol ar gyfer gosod tai. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai anghenion ymgeiswyr y mae dyletswydd iddynt gael blaenoriaeth dros amcanion mentrau lleol ar gyfer gosod tai. Rhaid i bolisïau lleol ar gyfer gosod tai beidio â gwahaniaethu o dan y meysydd

cydraddoldeb a restrir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Dylid eu monitro a'u hadolygu, ac fe ddylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn eu cyflwyno ac fel rhan o bob adolygiad.

  - 3.73 Dylid cyhoeddi polisïau lleol ar gyfer gosod tai, ond gan eu bod yn aml yn gyfyngedig o ran amser efallai na fydd yn ymarferol eu cynnwys yn y cynllun dyrannu. Ffordd o fodloni hyn fyddai cynnwys datganiad am y bwriad i roi polisïau gosod lleol ar waith a nodi manylion mewn dogfen neu ddogfennau ar wahân y gellir eu diddymu neu eu diwygio fel y bo'n briodol. Dylai awdurdodau gynnwys esboniad o'r polisi lleol ar gyfer gosod tai a ddylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Pan fwriedir i'r polisi fod yn gyfyngedig o ran amser, fe ddylai gynnwys strategaeth ymadael briodol.
- 3.74 Dylid monitro polisïau lleol ar gyfer gosod tai o ran eu heffeithiolrwydd a'u hadolygu'n rheolaidd fel y gellir eu diwygio neu eu diddymu os nad ydynt yn briodol neu'n angenrheidiol mwyach.
- **Adroddiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Pwnc: Goblygiadau'r Newidiadau diweddar i Ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer Ail Gartrefi a Llety Gosod Tymor Byr** (29/3/23) (Ffynhonnell: https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2023/03/08_23-Planning-Policy-Changes-re-Second-Homes-abd-Short-term-lets.pdf ) - Cyngor Sir Penfro - treth gyngor ail gartrefi a chanran ardrethi busnes cartrefi gwyliau yn ôl ffin Canolfan CDLl 2

| **Canolfan** | **% yr Eiddo Preswyl sy'n ail gartrefi neu'n gartrefi gwyliau ag ardrethi busnes yn y Parc Cenedlaethol** |
|---|---|
| Dinbych-y-pysgod (Canolfan Gwasanaeth a Thwristiaeth) | 28.07% |
| | |
| Saundersfoot (Canolfan Leol) | 29.35% |
| Tyddewi (Canolfan Leol) | 20.86% |
| Trefdraeth (Canolfan Leol) | 30.6% |
| | |
| Canolfannau Gwledig | |
| Llanrhath | 47.37% |
| Angle | 15.79% |
| Bosherston | 28.57% |
| Aberllydan | 36.58% |
| Castellmartin | 6.52% |
| Cei Cresswell* | |
| Dale | 39.47% |
| Dinas | 15.34% |

| | |
|---|---|
| Felindre Farchog | 4.35% |
| Herbrandston | 5.58% |
| Jameston | 8.57% |
| Lawrenni | 28.57% |
| Little Haven | 62.96% |
| Lydstep | 16.22% |
| Maenorbŷr | 0% |
| Gorsaf Maenorbŷr | |
| Marloes | 29.66% |
| Trewyddel | 22.64% |
| Mynachlog-ddu* | |
| Nanhyfer* | |
| Niwgwl* | |
| Nolton Haven | 60% |
| Pontfaen* | |
| Porthgain | 22.58% |
| Rosebush | 15.52% |
| Solfach | 22.05% |
| Llanismael | 11.17% |
| Trefin | 26% |
| *Canolfan Wledig heb Ffin i'r Ganolfan ar y Map Cynigion | |

| Canolfannau Gwledig (sy'n rhannol o fewn awdurdodaeth gynllunio'r Cyngor) | % yr Eiddo Preswyl sy'n ail gartrefi neu'n gartrefi gwyliau ag ardrethi busnes yn y Parc Cenedlaethol | % yr Eiddo Preswyl sy'n ail gartrefi neu'n gartrefi gwyliau ag ardrethi busnes y tu allan i'r Parc Cenedlaethol |
|---|---|---|
| Caeriw | 0% | 8.06% |
| Cosheston | 0% | 2.56% |
| Hool | 0% | 1.9% |
| Houghton | 0% | 2.38% |
| Llandyfái | 0% | 5.33% |
| Llangwm | - (dim ffin i'r Ganolfan) | 7.42% |

| | | |
|---|---|---|
| Milton | 0% | 1.2% |
| New Hedges | 4.35% | 6.33% |
| Pleasant Valley | - (dim ffin i'r Ganolfan) | 21.31% |
| Y Garn | 33.33% | 7.05% |
| Y Sgwâr | 25% | - Dim ystadegau ar gael |
| Wisemans Bridge | 35.71% | - (dim ffin i'r Ganolfan) |
| *Canolfan Wledig heb Ffin i'r Ganolfan ar y Map Cynigion | | |

- **Canllaw i waith teg, Llywodraeth Cymru, 2023** (Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/canllaw-i-waith-teg )
- **Prosiect PLANED:** Mae prosiect Catalyddion Gofal yn cefnogi pobl sydd â natur ofalgar a syniad da i sefydlu eu menter gofal neu gefnogi eu hunain. Maent yn cynnig dwy raglen am ddim i sefydlu menter gofal neu gymorth: Rhaglen Micro-fenter Gymunedol a Rhaglen Menter Gymdeithasol.

**Bydd Strategaeth Dai Cyngor Sir Penfro 2024-2029 -** Strategaeth Dai 2024-2029 - Cyngor Sir Penfro
/ Atodiad 1 – Cyngor Sir Penfro – yn effeithio ar y bobl sy'n byw yn ardal y Parc. (ychwanegwyd fel rhan o asesiad Cam 2))

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Adroddiad Adolygu Drafft ar y Cynllun Datblygu Lleol (LDP2)**

**Adborth o'r ymgynghoriad ar y Cynllun drafft**

**Creu Swyddi, Tai Fforddiadwy**

- Adran 7: Cymunedau: Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru - Yn yr un modd â'r adrannau uchod, nid oes targedau pendant, CAMPUS wedi'u hamlinellu yn yr adran hon i sicrhau bod amcanion y cynllun yn cael eu datblygu a'u cyflawni; ac nid yw'n hawdd dilyn y llwybr rhwng canlyniadau, polisïau a chamau enghreifftiol. Er enghraifft, does dim yn yr adran polisi neu gamau enghreifftiol sy'n ymwneud â chyfleoedd gwaith, er bod hynny wedi'i gynnwys yn y prif ganlyniadau ac yn gynharach o lawer yn adrannau rhagarweiniol y cynllun.
- Effaith ar Gydraddoldeb: Cyngor Sir Penfro – Mae rhai pryderon na fydd y Cynllun yn dod â manteision i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, gan ei fod (yn ddealladwy) yn ceisio gwarchod tirweddau ac asedau cadwraeth natur y Parc Cenedlaethol rhag difrod ond, wrth wneud hynny, gall gyfyngu ar y datblygiadau economaidd sy'n darparu bywoliaeth.

Fodd bynnag, mae'r darlun yn gymhleth, er enghraifft oherwydd bod cynllunio APC yn rhoi pwyslais cryf ar ddarpariaeth tai fforddiadwy, a fydd yn helpu'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, felly mae'n anodd cyffredinoli.

- Cyngor Sir Penfro – Mae swyddogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel Awdurdod Cynllunio a sut mae'n rheoli ansawdd y datblygiad yn absennol yn y fersiwn hawdd ei deall. Fodd bynnag, mae'n un o'r meysydd sy'n effeithio ar lawer o bobl.
- Llywodraeth Cymru – Croeso Cymru: Does dim llawer i'w ychwanegu, ond credaf y gellid cryfhau'r ffaith bod Twristiaeth yn ffactor allweddol sy'n sbarduno economi'r Parc Cenedlaethol yn y ddogfen. Hyd y gwela i, does dim cyfeiriad chwaith at y cynllun economi ymwelwyr cyffredinol **Croeso i Gymru Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020-2025**, er bod nodau cyffredinol Croeso i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Partneriaeth.
- Ymateb i'r arolwg – Ydyn ni wedi cofnodi Cyflwr y Parc yn gywir, ynghyd â'r prif heriau a chyfleoedd? Oes tystiolaeth arall y gallwn ei hychwanegu ? Na – Dydyn ni ddim yn derbyn y syniad bod ail gartrefi a lletyau gwyliau yn ddrwg i'r parc. Maen nhw'n hollbwysig i'w hiechyd economaidd.

| Effaith/ Risg | Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen |
|---|---|
| **Effaith/ Risg gyffredinol**<br><br>Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cynnal economi gref yn ogystal â bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu.<br><br>**Cydnabyddiaeth / Effaith Gadarnhaol**<br><br>• Mae'r adran Cymunedau ar gyflwr y Parc yn nodi: Mae partneriaid fel Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chwmnïau adeiladu yn hanfodol i ddarparu datblygiad o ansawdd uchel o fewn yr amgylchedd sensitif hwn, a gall sicrhau bod swyddi a thai lleol ar gael gefnogi'r ymdrech i gadw siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau sy'n sensitif i'r iaith. | **Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:**<br>• Diwygio'r Testun: Ychwanegu'r camau gweithredu partneriaeth canlynol o dan Cymunedau: Hybu'r gwaith o ddatblygu sgiliau a llwybrau at gyflogaeth a chyfleoedd gwaith teg mewn diwydiannau presennol a diwydiannau sy'n datblygu yn y Parc, gan gynnwys y sector ynni morol. Arweinydd: Coleg Sir Benfro. Fforwm Arfordir Sir Benfro. Partneriaid cyflenwi allweddol: Cyngor Sir Penfro. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.<br>• Diwygio'r Testun: Diwygio'r cyfeiriad at Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro fel bod y camau gweithredu'n darllen fel a ganlyn: Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28 i gefnogi twristiaeth adfywiol ac economi ymwelwyr sydd o fudd i gymunedau lleol, gan greu bywoliaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm.<br>• Diwygio'r Testun: Gweithredu Strategaethau Caffael i gefnogi'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. |

| | |
|---|---|
| • Mae canlyniadau ar gyfer y Gymuned yn cynnwys:<br>• Byddwn yn cyflawni holl dargedau'r Cynllun Datblygu Lleol, ee 60 o dai newydd y flwyddyn, ac mae 23 ohonynt yn fforddiadwy. Byddwn yn lleihau'r rhestr aros sylweddol ar gyfer tai fforddiadwy yn Sir Benfro (dros 4,500 yn 2024) Byddwn yn mynd i'r afael â'r nifer fawr o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a'r cyfleoedd prin am gyflogaeth.<br>• Mae camau gweithredu'r bartneriaeth yn cynnwys: SE1/A Darparu cartrefi priodol, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar gyfer cymunedau lleol drwy'r system gynllunio a gweithio ar y cyd. Defnyddio polisïau gosod lleol, a ddefnyddir ar safleoedd eithriadau gwledig lle bo hynny'n briodol a lle bo tystiolaeth yn dangos eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn y canlyniadau a ddymunir. Arweinydd: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cyngor Sir Penfro. Partneriaid cyflenwi allweddol: Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, adeiladwyr tai. SE1/B Datblygir sylfaen dystiolaeth ar fathau o gartrefi a'u hanghenion (ee perthynas â'r Gymraeg, rhannu data ar ail gartrefi / cartrefi gwyliau, ystyried dewisiadau o ran cydberchnogaeth leol). H2/B Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ee Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg.<br>• SE1/ C yn cyfeirio at waith teg<br>• Cam gweithredu wedi'i gynnwys ynglŷn â Chynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro wedi'i gynnwys | |

| | |
|---|---|
| E1/J Cefnogi bwyd sy’n cael ei gynhyrchu’n lleol, sy’n amgylcheddol gadarn ac sy’n gymdeithasol gyfrifol – dylai helpu i gefnogi cymunedau ffermio<br><br>**Ystyriaethau o ganlyniad i newidiadau i’r cynllun drafft**<br><br>• Er bod y canlyniad wedi’i gynnwys o dan ‘Cymuned’ ar y canlynol: Byddwn yn mynd i'r afael â’r nifer fawr o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a’r cyfleoedd prin am gyflogaeth. Dim ond effaith gyfyngedig y mae’r camau partneriaeth presennol yn ei chael ar hyn a gellid cryfhau’r adran gefndir hefyd. I gryfhau camau gweithredu’r bartneriaeth, awgrymir:<br>• Ychwanegu’r camau gweithredu canlynol: Hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau a llwybrau at gyflogaeth a chyfleoedd gwaith teg mewn diwydiannau presennol a diwydiannau sy’n datblygu yn y Parc, gan gynnwys y sector ynni morol. Arweinydd: Coleg Sir Benfro. Fforwm Arfordir Sir Benfro. Fforwm Arfordir Sir Benfro Partneriaid cyflenwi allweddol: Cyngor Sir Penfro.<br>• Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. (Sylwer: Mae Coleg Sir Benfro wedi agor Canolfan Trawsnewid Ynni ar safle’r coleg yn Hwlffordd, sy’n anelu at hyfforddi 600 o unigolion erbyn mis Gorffennaf 2026, gan ddarparu cronfa o dalent i Sir Benfro a Gorllewin Cymru a fydd â’r wybodaeth a’r profiad o systemau rheoli sydd eu hangen ar gyfer | |

| | |
|---|---|
| prosiectau fel ffermydd gwynt arnofiol ar y môr a gorsafoedd pŵer hydrogen Aberdaugleddau.)<br>• Diwygio'r cyfeiriad at Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro fel bod y camau gweithredu'n darllen fel a ganlyn: Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28 i gefnogi twristiaeth adfywiol ac economi ymwelwyr sydd o fudd i gymunedau lleol, gan greu bywoliaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm.<br><br>Ychwanegu'r camau gweithredu canlynol Gweithredu Strategaethau Caffael i gefnogi'r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol | |

| **Maes sydd angen sylw** | **Bylchau yn yr adran polisi/ deddfwriaeth o ran y Gymraeg** |
|---|---|
| Grwpiau Iaith Gymraeg/ Meysydd dylanwad | Grwpiau Iaith Gymraeg:<br>• Siaradwyr Cymraeg – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Dysgwyr – Preswylwyr/ Cymunedau/ Ymwelwyr/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Siaradwyr Di-Gymraeg – Gwelededd/ Ymwybyddiaeth/ hybu/ ar draws grwpiau gwarchodedig a grwpiau economaidd-gymdeithasol<br>• Cymunedau Sensitif i'r Gymraeg<br>• Dysgu Cymraeg – Ysgolion/ Addysg Oedolion<br>• Grwpiau cymunedol sy'n hwyluso defnyddio'r Gymraeg<br>• Rhanddeiliaid ehangach gan gynnwys busnesau lleol<br><br>Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg:<br>• Defnyddio'r Gymraeg<br>• Hybu/ gwelededd y Gymraeg<br>• Nifer y Siaradwyr Cymraeg |

| | |
|---|---|
| | • Rhuglder a Hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg<br>• Cynaliadwyedd Cymunedau Cymraeg<br>• Safonau'r Gymraeg |

| **Tystiolaeth neu Fater** |
|---|
| • Mae'r adolygiad o'r ddeddfwriaeth a'r meysydd polisi a restrir wedi datgelu bylchau o ran cyfeiriadau at feysydd perthnasol sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg<br>• Dylid cyfeirio at y canlynol:<br>    ○ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br>    ○ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>    ○ Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg<br>• Strategaethau Hybu'r Gymraeg (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro)<br>    • Cyfeiriwyd yn yr Atodiad at Cymraeg 2050. |

| **Effaith/ Risg** | **Ymateb/ Mesurau Lliniaru/ Unrhyw gamau ychwanegol sydd eu hangen** |
|---|---|
| • Nid yw fframwaith deddfwriaethol y polisi ehangach na'r cynlluniau hybu sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg wedi'u hamlygu'n llawn yn y ddogfen bolisi. | Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir:<br>• Dylid cynnwys cyfeiriad at y canlynol yn yr adran polisi/ deddfwriaeth:<br>    ○ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br>    ○ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>    ○ Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg<br>    ○ Strategaethau Hybu'r Gymraeg (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro) |

## Ystyriaethau Meysydd Dylanwad yr Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| Sut mae'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol sy'n cael ei asesu yn | Mae'r canlynol wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun |

| | |
|---|---|
| hyrwyddo niferoedd a/ neu ganrannau o siaradwyr Cymraeg/ defnydd o'r Gymraeg. | Polisi H2: Hybu'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd, ynghyd â chanlyniadau<br>• Polisi H2/E: Archwilio ffyrdd newydd o fynd ati i gyfuno'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol gyda gweithgareddau'r Awdurdod.<br>Polisi W1/J Gweithio gyda busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i drigolion ac ymwelwyr.<br><br>Mae'r asesiad wedi nodi y gellid cryfhau'r genhadaeth treftadaeth ddiwylliannol i'r canlynol: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg.<br><br>Roedd yr asesiad hefyd yn nodi'r camau canlynol o ran Monitro/Sgwrsio Parhaus:<br><br>• Ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy'n gallu helpu i gyflawni'r cynllun o ran polisïau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ymgysylltu ag Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro yn rhoi cyfle i helpu i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth.<br>• Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig: Coffi a chlonc, Taith gerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr. |
| Sut mae'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol sy'n cael ei asesu yn | Mae'r canlynol wedi cael eu cynnwys yn y Cynllun |

| | |
|---|---|
| cefnogi cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg | • Polisi H2: Hybu'r Gymraeg a thafodieithoedd lleol a dathlu diwylliant a chreadigrwydd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd, ynghyd â chanlyniadau<br>• Polisi H2/E: Archwilio ffyrdd newydd o fynd ati i gyfuno'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol gyda gweithgareddau'r Awdurdod.<br>• Polisi W1/J Gweithio gyda busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog, ddifyr a hygyrch i drigolion ac ymwelwyr.<br>H1/K Mae enwau lleoedd, ee enwau caeau, yn cael eu dathlu a'u gwarchod. – dylai helpu i hyrwyddo enwau lleoedd a nodweddion daearyddol Cymraeg yn y Parc.<br><br>Mae Nodweddion Arbennig yn cyfeirio at yr iaith Gymraeg a thafodiaith Gymraeg Sir Benfro.<br><br>Mae'r asesiad wedi nodi y gellid cryfhau'r genhadaeth treftadaeth ddiwylliannol i: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg. |
| Sut mae'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol sy'n cael ei asesu yn cefnogi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | • Mae cyfeiriadau at dafodiaith Sir Benfro yn cyfeirio at dafodieithoedd Cymraeg a Saesneg<br>• Bydd y cynllun terfynol a gymeradwywyd ar gael yn Gymraeg a bydd y dogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg |
| Sut mae'r Cynllun, Polisi neu Benderfyniad Strategol sy'n cael ei asesu yn cefnogi cydymffurfiaeth ac yn helpu i gefnogi cynaliadwyedd y Gymraeg mewn cymunedau | • Mae Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cynnal economi gref yn ogystal â bod â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu.<br><br>Mae'r cynllun yn cefnogi hyn drwy'r canlynol:<br>• Mae canlyniadau ar gyfer y Gymuned yn cynnwys: Byddwn yn cyflawni holl dargedau'r Cynllun Datblygu Lleol, ee 60 o dai newydd y flwyddyn, ac mae 23 ohonynt yn fforddiadwy.Byddwn yn lleihau'r rhestr aros sylweddol ar gyfer tai fforddiadwy yn Sir Benfro (dros 4,500 yn 2024.) Byddwn yn mynd i'r afael â'r nifer fawr o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a'r cyfleoedd prin am gyflogaeth. |

| | |
|---|---|
| | Mae camau gweithredu'r bartneriaeth yn cynnwys: SE1/A Darparu cartrefi priodol, gan gynnwys tai fforddiadwy, ar gyfer cymunedau lleol drwy'r system gynllunio a gweithio ar y cyd. Defnyddio polisïau gosod lleol, a ddefnyddir ar safleoedd eithriadau gwledig lle bo hynny'n briodol a lle bo tystiolaeth yn dangos eu bod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni yn erbyn y canlyniadau a ddymunir. Arweinydd: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.<br>• Cyngor Sir Penfro. Partneriaid Cyflenwi Alweddol: Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, adeiladwyr tai. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, adeiladwyr tai. H2/B Gweithredu Cynllun Datblygu Lleol 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ee Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg.<br>• SE1/ C yn cyfeirio at waith teg<br>• Cam gweithredu wedi'i gynnwys ynglŷn â Chynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro wedi'i gynnwys E1/J Cefnogi bwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol, sy'n amgylcheddol gadarn ac sy'n gymdeithasol gyfrifol – dylai helpu i gefnogi cymunedau ffermio<br><br>Awgrymwyd camau pellach i fynd i'r afael â'r canlyniad "Byddwn yn mynd i'r afael â nifer uchel o swyddi tymhorol sy'n talu'n wael a chyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig." |

## Bylchau Data/ Ymgysylltu

| | |
|---|---|
| Oes gennych chi unrhyw fylchau data/ ymgysylltu? | Mae'r asesiad wedi ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau ac wedi ymgynghori ynghylch Nodweddion Arbennig ac ymgynghori (gan gynnwys ymatebion manwl a roddwyd gan y sefydliad partner). |
| Os oes, a oes modd cael gafael ar fwy o wybodaeth neu ymgysylltu rhagor i lenwi rhai o'r bylchau data hyn? | Bydd camau gweithredu / monitro'r bartneriaeth yn cael eu llywio gan adolygiad parhaus o ddata. |

## Adran 4 – Camau Dilynol

**Diwygiad/ Cam Gweithredu a Argymhellir**

| Maes sydd angen sylw | Cam Gweithredu | Swyddog Cyfrifol | Amserlenni | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Cryfhau'r cyfeiriad at y Gymraeg yn yr Adran Rhagair/ Newidiadau i'r Nodweddion/ Gweledigaeth Arbennig | Diwygio'r testun: Cyfeirio'n fwy pendant at y Gymraeg yn y rhagair gan nad oes cyfeiriad penodol am y rôl y gallwn ei chwarae o ran hybu'r Gymraeg. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |
| | Diwygio'r testun: Ni chyfeirir yn benodol at yr Iaith Gymraeg yn y weledigaeth neu Sut y bydd gwireddu'r weledigaeth yn edrych. Awgrymu bod y geiriad canlynol yn cael ei ychwanegu at sut bydd cyflawni'r weledigaeth yn edrych: Mae amlygrwydd y Gymraeg a'i defnydd ohoni yn ffynnu yn y Parc. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |
| Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol | Diwygior testun: Diwygio Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol i: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo'r iaith Gymraeg. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |
| Rhestr o Bartneriaid a grybwyllwyd yn y Cynllun hwn / Cyfleoedd i Ddefnyddio/ Iechyd a Llesiant/ Arwahaniad Cymdeithasol a dod â phobl at ei gilydd/ Cefnogi Dysgwyr – Dysgu Cymraeg/ Meithrin Hyder/ Cyfleoedd i Bobl | Sgwrs/Monitro Parhaus: Ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy'n gallu helpu i gyflawni'r cynllun o ran polisïau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ymgysylltu ag Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro yn rhoi cyfle i helpu i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o'r gwaith o fonitro'r cynllun partneriaeth, a yw'r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Ar ôl Cymeradwyo | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ddysgu am y Parc yn Gymraeg | Sgwrs Barhaus:<br>Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno'r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig:<br>Coffi a chlonc, Teithiau cerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Ar ôl Cymeradwyo | |
| Cymunedau Cynaliadwy lle gall y Gymraeg ffynnu | Diwygio'r testun: Ychwanegu'r camau gweithredu partneriaeth canlynol o dan Cymunedau: Hybu'r gwaith o ddatblygu sgiliau a llwybrau at gyflogaeth a chyfleoedd gwaith teg mewn diwydiannau presennol a diwydiannau sy'n datblygu yn y Parc, gan gynnwys y sector ynni morol. Arweinydd: Coleg Sir Benfro, Fforwm Arfordir Sir Benfro. Partneriaid cyflenwi allweddol: Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |
| | Diwygio'r testun: Diwygio'r cyfeiriad at Gynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro fel bod y camau gweithredu'n darllen fel a ganlyn: Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28 i gefnogi twristiaeth adfywiol ac economi | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ymwelwyr sydd o fudd i gymunedau lleol, gan greu bywoliaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm. | | | |
| | Diwygio’r testun: Ychwanegu’r camau gweithredu canlynol: Gweithredu Strategaethau Caffael i gefnogi’r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |
| Bylchau yn yr adran polisi/ deddfwriaeth o ran y Gymraeg | Diwygio’r testun: Dylid cynnwys cyfeiriad at y canlynol yn yr adran polisi/ deddfwriaeth:<br>○ Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br>○ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>Y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg<br>Strategaethau Hybu’r Gymraeg (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro) | Swyddog Cynllun Rheoli a Morol | Cymeradwyo o flaen llaw | |

### Yr Iaith Gymraeg - Crynodeb/ Argymhelliad o’r Asesiad i’w gynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor/ Tîm Arwain

### Adran 5 - Crynodeb/ Argymhellion o’r Asesiad: Yr Iaith Gymraeg

Roedd yr asesiadau cam 1 a cham 2 yn nodi amrywiaeth o effeithiau y gallai’r cynllun eu cael ar yr Iaith Gymraeg.

Roedd y themâu yn cynnwys y canlynol:

- Mwy o gydnabyddiaeth o’r dafodiaith Gymraeg yn Sir Benfro a’r defnydd o’r Gymraeg mewn cymunedau yng ngogledd y Parc Cenedlaethol lle mae’r Gymraeg yn cael ei defnyddio’n gryf ar hyn o bryd ac yn draddodiadol.
- Ychwanegiadau i gwblhau’r fframwaith polisi a deddfwriaethol sy’n gysylltiedig â’r iaith Gymraeg.
- Ychwanegiadau i gwblhau’r amrywiaeth o bartneriaid a allai gefnogi’r gwaith o gyflawni polisïau a chanlyniadau sy’n gysylltiedig â’r Gymraeg, ee y rheini sy’n gysylltiedig â llesiant.

- Sicrhau bod plant sy’n cael addysg cyfrwng Cymraeg neu sy’n cael cefnogaeth drwy ganolfannau iaith (yn Sir Benfro a thu allan) yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddysgu am y Parc yn Gymraeg.
- Ychwanegiadau at weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a datblygu cyfleoedd presennol i ddysgu Cymraeg yn Sir Benfro.
- Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn integredig wrth ddatblygu dulliau twristiaeth adfywiol, ee codi ymwybyddiaeth o arwyddocâd yr iaith Gymraeg a’i hyrwyddo i ymwelwyr.
- Sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gallu cael gafael ar wybodaeth yn Gymraeg a hefyd yn codi amlygrwydd yr iaith i bobl ddi-Gymraeg / ymwelwyr.
- Argymhellion ychwanegol ar gyfer ymdrech y bartneriaeth i warchod enwau hanesyddol daearyddol.
- Argymhellion ychwanegol ar gyfer ymdrech y bartneriaeth i gefnogi amrywiaeth briodol o gyfleoedd gwaith teg, gan adlewyrchu pwysigrwydd economi gref yn ogystal â chyflenwad digonol o dai fforddiadwy i alluogi cymunedau bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu.

Sylwadau ynghylch hyfforddiant a chyfleoedd gwaith sy’n deillio o amcanion cadwraeth a hinsawdd – ee y rôl y gallai rôl ffermio adfywiol ei chwarae i’r genhedlaeth nesaf o ffermwyr mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith – ac yn fwy cyffredinol, cefnogi amrywiaeth eang o bobl i weithredu dros fyd natur.

Er gwaethaf newidiadau sylweddol i fformat y cynllun, roedd llawer o’r diwygiadau a awgrymwyd fel rhan o’r asesiad cam 1 wedi cael eu cymhwyso, gan gryfhau ymateb y cynlluniau i’r argymhellion ynghylch materion uchod. Mae newidiadau i eiriad y datganiad o arwyddocâd ar gyfer y Gymraeg a thafodieithoedd Sir Benfro yn mynd i’r afael â materion a nodwyd yn asesiad Cam 1. Cynnwys W1/J Mae gweithio gyda busnesau i gynyddu eu defnydd o’r Gymraeg mewn ffordd hwyliog a hygyrch, sy’n ennyn diddordeb trigolion ac ymwelwyr wedi cael ei gynnwys fel cam gweithredu partneriaeth. Mae hyn yn cysylltu’n uniongyrchol â gweithredu o fewn y Cynllun Rheoli Cyrchfan ar “Weithio gyda busnesau i gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg yn eu busnesau mewn ffordd hwyliog a hygyrch sy’n ennyn diddordeb ymwelwyr. Roedd enghraifft wych yn ddiweddar gan Coastal Cottages of Pembrokeshire ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi 2024.

Roedd asesiad cam 2 wedi nodi diwygiadau pellach i gryfhau’r cynllun o ran effaith gadarnhaol ac roedd rhai yn ganlyniad i’r newidiadau i fformat y cynllun. Yn benodol:

- Cyfeirio’n fwy pendant at y Gymraeg yn y rhagair gan nad oes cyfeiriad penodol am y rôl y gallwn ei chwarae o ran hybu’r Gymraeg.
- Diwygio Cenhadaeth dros Dreftadaeth a Chysylltiad Diwylliannol i’r canlynol: Gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hyrwyddo’r iaith Gymraeg.
- Fel rhan o’r Sgwrs/Monitro Parhaus: Ystyried sut bydd partneriaid allweddol yn ymgysylltu ag amrywiaeth o sefydliadau llai, grwpiau cymunedol, grwpiau cymorth sy’n gallu helpu i gyflawni’r cynllun o ran polisïau sy’n gysylltiedig â hyrwyddo’r Gymraeg. Mae ymgysylltu ag Eisteddfod 2026 yn Sir Benfro yn rhoi cyfle i helpu i ddatblygu’r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae hefyd yn bwysig ystyried, fel rhan o’r gwaith o fonitro’r cynllun partneriaeth, a yw’r cyfleoedd sydd ganddynt i sefydlu yn ffordd o gofnodi astudiaethau achos o waith mudiadau llai, grwpiau cymunedol a grwpiau cymorth. Fel rhan o H2/E - Archwilio ffyrdd newydd o gyfuno’r gwaith o hybu'r Gymraeg â gweithgareddau'r Awdurdod. Dylai'r Awdurdod ystyried os oes angen cysylltiadau cryfach â Menter Iaith Sir Benfro/ Dysgu Cymraeg Sir Benfro er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn hybu ac yn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir ganddynt yn ardal y Parc, ac yn archwilio meysydd gweithio ar y cyd, yn enwedig gyda rhaglenni cymunedol. Dyma enghreifftiau o weithgareddau maent yn eu cynnig: Coffi a chlonc, Taith gerdded (gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn ardal y Parc), Gŵyl y Dysgwyr.
- Er bod y canlyniad wedi’i gynnwys o dan y teitl Cymuned – Byddwn yn mynd i’r afael â nifer uchel o swyddi tymhorol sy’n talu’n wael a chyfleoedd cyflogaeth cyfyngedig. Teimlwyd mai dim ond effaith gyfyngedig a gafodd camau gweithredu partneriaeth a nodwyd ar hyn, ac y gellid cryfhau’r adran gefndirol hefyd. Roedd y camau gweithredu ychwanegol a awgrymwyd yn cynnwys y canlynol: Hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau a llwybrau at gyflogaeth a chyfleoedd gwaith teg mewn diwydiannau presennol a diwydiannau sy’n datblygu yn y Parc, gan gynnwys y sector ynni morol. Arweinydd: Coleg Sir Benfro, Fforwm Arfordir Sir Benfro. Partneriaid cyflenwi allweddol: Cyngor Sir Penfro. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Sylwer: Mae Coleg Sir Benfro wedi agor Hwb Trawsnewid Ynni yn ddiweddar ac mae Fforwm Arfordir Sir Benfro yn ymgysylltu â Marine Energy Wales o ran hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector i bobl ifanc drwy eu gwaith cwricwlwm arfordirol). Gweithredu Strategaethau Caffael i gefnogi’r Ddyletswydd Caffael Cymdeithasol Gyfrifol. Sylwer: Drwy fabwysiadu dull cymdeithasol gyfrifol o gaffael, gall cyrff cyhoeddus sy’n gweithredu yn y Parc a’r ardal gyfagos gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol a llesiant economaidd y Parc. Roedd y camau gweithredu hefyd wedi’u cynnwys ar y canlynol: Cyflawni Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2024-28 i gefnogi twristiaeth adfywiol ac economi ymwelwyr sydd o fudd i gymunedau lleol, gan greu bywoliaethau cynaliadwy a chyfleoedd incwm.
- Ychwanegiadau o ran bylchau yn Atodiad 1

## Atodiad 1 –Data Allweddol

- **Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2023 -2028**
  (Ffynhonnell: Final-Welsh-Language-Strategy-2023-2028-Cymraeg.pdf (arfordirpenfro.cymru) )
    - Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021, roedd 19.4% (3,977) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro. Mae hyn yn uwch na 17.2% yn Sir Benfro a 17.8% yng Nghymru. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 1.4% yn ardal Arfordir Penfro ers Cyfrifiad 2011, ychydig yn uwch na'r gostyngiad a welwyd ar lefel genedlaethol Cymru o 1.2%.
    - Dangosodd data Cyfrifiad 2021 fod dros hanner y boblogaeth mewn pedair ardal Cyngor Cymuned yn y Parc yn gallu siarad Cymraeg. Y rhain yw Crymych, Cwm Gwaun, Eglwyswrw a Maenclochog. Mae hyn yn ostyngiad o bum ardal yn 2011 a saith yn 2001.
    - Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 yr Awdurdod yn cydnabod ac yn gwarchod yr iaith Gymraeg fel un o Nodweddion Arbennig y Parc (Polisi 8). Bydd Polisi 13 Datblygu mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Iaith Gymraeg fel arfer yn berthnasol mewn ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref sydd â 19.2% neu fwy o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, fel y clustnodir yn y Cyfrifiad. Yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011 clustnodwyd yr ardaloedd canlynol fel Ardaloedd Sensitif i'r Iaith Gymraeg yn y Cynllun Datblygu Lleol 2: Crymych, Cwm Gwaun, Dinas, Eglwyswrw, Abergwaun ac Wdig, Cas-lai, Llanrhian, Llawhaden, Maenclochog, Mathri, Mynachlog-ddu, Nanhyfer, Trefdraeth, Pen-caer, Cas-mael, Solfach, Tyddewi a Llandudoch.
    - Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Arfordir Penfro mae'n werth nodi bod Sir Benfro gyfan dros y blynyddoedd diwethaf wedi gweld twf yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- **Arolwg Defnydd Iaith -** https://www.llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith
- **Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2023** - Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2023 | LLYW.CYMRU
- **Llesiant Cymru, 2023** – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- **Cyfrifiad 2021**
    - Sgiliau Cymraeg (siarad) - mae 19.4% (3,977) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro, mae hyn yn uwch na 17.2% yn Sir Benfro a 17.8% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 57.2% yn Eryri a 13% ym Mannau Brycheiniog.

**TS033 - Sgiliau Cymraeg (siarad)**

SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 30 Mehefin 2023]

| | |
|---|---|
| poblogaeth | Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn |
| unedau | Personau |
| dyddiad | 2021 |

Er mwyn diogelu rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae'r cofnodion wedi'u cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol a'r niferoedd yn destun mymryn o aflonyddiad. Bydd yr effaith fwyaf ar y cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

| **Ardal** | **Cyfanswm: Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn** | | **Yn methu siarad Cymraeg** | | **Yn gallu siarad Cymraeg** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **nifer** | **%** | **nifer** | **%** | **nifer** | **%** |
| lacu2021:Sir Benfro | 120,206 | 100.0 | 99,580 | 82.8 | 20,626 | 17.2 |
| gwlad:Cymru | 3,018,172 | 100.0 | 2,479,876 | 82.2 | 538,296 | 17.8 |
| np2021:Bannau Brycheiniog | 32,757 | 100.0 | 28,495 | 87.0 | 4,262 | 13.0 |
| np2021:Arfordir Penfro | 20,543 | 100.0 | 16,566 | 80.6 | 3,977 | 19.4 |
| np2021:Eryri | 23,902 | 100.0 | 10,227 | 42.8 | 13,675 | 57.2 |

- Sgiliau Cymraeg (ysgrifennu) - mae 15.8% (3,241) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro, mae hyn yn uwch na 13.9% yn Sir Benfro a 15.2% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 50.5% yn Eryri a 10.9% ym Mannau Brycheiniog.

**TS034 - Sgiliau Cymraeg (ysgrifennu)**

SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 30 Mehefin 2023]

| | |
|---|---|
| poblogaeth | Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn |
| unedau | Personau |

dyddiad 2021
Er mwyn diogelu rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae'r cofnodion wedi'u cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol a'r niferoedd yn destun mymryn o aflonyddiad. Bydd yr effaith fwyaf ar y cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

| **Ardal** | **Cyfanswm: Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn** | | **Yn methu ysgrifennu Cymraeg** | | **Yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **nifer** | **%** | **nifer** | **%** | **nifer** | **%** |
| lacu2021:Sir Benfro | 120,208 | 100.0 | 103,547 | 86.1 | 16,661 | 13.9 |
| np2021:Bannau Brycheiniog | 32,757 | 100.0 | 29,194 | 89.1 | 3,563 | 10.9 |
| np2021:Eryri | 23,902 | 100.0 | 11,820 | 49.5 | 12,082 | 50.5 |
| np2021:Arfordir Penfro | 20,543 | 100.0 | 17,302 | 84.2 | 3,241 | 15.8 |
| gwlad:Cymru | 3,018,172 | 100.0 | 2,559,708 | 84.8 | 458,464 | 15.2 |

- Sgiliau Cymraeg (darllen) – mae 18.2% (3,738) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu darllen Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro, mae hyn yn uwch na 16.1% yn Sir Benfro a 17.3% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 53.4% yn Eryri a 13.3% ym Mannau Brycheiniog.

### TS035 - Sgiliau Cymraeg (darllen)

SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 30 Mehefin 2023]

poblogaeth Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn
unedau Personau
dyddiad 2021
Er mwyn diogelu rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae'r cofnodion wedi'u cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol a'r niferoedd yn destun mymryn o aflonyddiad. Bydd yr effaith fwyaf ar y cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

| Ardal | Cyfanswm: Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn | | Yn methu darllen Cymraeg | | Yn gallu darllen Cymraeg | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | nifer | % | nifer | % | nifer | % |
| lacu2021:Sir Benfro | 120,208 | 100.0 | 100,898 | 83.9 | 19,310 | 16.1 |
| np2021:Bannau Brycheiniog | 32,757 | 100.0 | 28,397 | 86.7 | 4,360 | 13.3 |
| np2021:Eryri | 23,902 | 100.0 | 11,131 | 46.6 | 12,771 | 53.4 |
| np2021:Arfordir Penfro | 20,543 | 100.0 | 16,805 | 81.8 | 3,738 | 18.2 |
| gwlad:Cymru | 3,018,172 | 100.0 | 2,495,761 | 82.7 | 522,411 | 17.3 |

- Sgiliau Cymraeg (deall) – mae 24.5% (5,027) o'r holl drigolion arferol 3 oed a hŷn yn gallu darllen Cymraeg yn ardal Arfordir Penfro, mae hyn yn uwch na 22.2% yn Sir Benfro a 21.9% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â 60.9% yn Eryri a 17.6% ym Mannau Brycheiniog.

**TS036 - Sgiliau Cymraeg (deall)**

SYG Cedwir Hawlfraint y Goron [gan Nomis ar 30 Mehefin 2023]


| | |
|---|---|
| poblogaeth | Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn |
| unedau | Personau |
| dyddiad | 2021 |

Er mwyn diogelu rhag datgelu gwybodaeth bersonol, mae'r cofnodion wedi'u cyfnewid rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol a'r niferoedd yn destun mymryn o aflonyddiad. Bydd yr effaith fwyaf ar y cyfrifiadau bach yn yr ardaloedd daearyddol lleiaf.

| Ardal | Cyfanswm: Holl drigolion arferol 3 oed a hŷn | Yn methu deall Cymraeg llafar | Yn gallu deall Cymraeg llafar |
|---|---|---|---|

| | nifer | % | nifer | % | nifer | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| lacu2021:Sir Benfro | 120,208 | 100.0 | 93,496 | 77.8 | 26,712 | 22.2 |
| np2021:Bannau Brycheiniog | 32,758 | 100.0 | 26,979 | 82.4 | 5,779 | 17.6 |
| np2021:Eryri | 23,904 | 100.0 | 9,343 | 39.1 | 14,561 | 60.9 |
| np2021:Arfordir Penfro | 20,543 | 100.0 | 15,516 | 75.5 | 5,027 | 24.5 |
| gwlad:Cymru | 3,018,172 | 100.0 | 2,357,040 | 78.1 | 661,132 | 21.9 |

- [Sgiliau Cymraeg pobl - Mapiau'r Cyfrifiad, SYG]




**Atodiad 2: Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar Gynllun Partneriaeth Parc Cenedlaethol drafft Arfordir Penfro – sy'n berthnasol i Gydraddoldeb, Anfantais Economaidd-gymdeithasol ac Effeithiau ar Iechyd.**

1. **Deunyddiau ymgynghori**
    - Darparwyd y dogfennau ymgynghori canlynol a'r deunyddiau ategol i roi sylwadau arnynt.
    - 1 Drafft ymgynghori Cynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol 2025-2029
    - 2 Fersiwn Hawdd ei Ddeall o'r Cynllun Partneriaeth a'r ffurflen ymateb Hawdd ei Ddeall
    - 3 Ffurflen ymateb (ar-lein)
    - Asesiadau:
    - Arfarniad o Gynaliadwyedd Drafft (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol):
    - 4a Crynodeb Gweithredol Drafft o Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol
    - 4b Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol Drafft
    - 4c Atodiad A - Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol
    - 4d Atodiad B – Gwybodaeth Sylfaenol
    - 4e Atodiad C – Asesiadau Polisi Manwl
    - 5 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Drafft
    - 6 Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Drafft
    - 7 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Drafft
    - 8 Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Drafft
    - 9 Crynodeb o'r asesiadau effaith ar Gydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Gwybodaeth Ategol

- 10 Mapiau rhyngweithiol
- 11 Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar yr arolwg Rhinweddau Arbennig (gwanwyn 2024)
- 12 Adroddiad Cwmpasu Drafft (Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Adroddiad Ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu.)
- 13 Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu

2. Cyfnod ymgynghori: 2/8/24 – 30/9/24.

3. Codi Ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad: Anfonwyd negeseuon e-bost at sefydliadau a grwpiau, gan gynnwys unigolion a oedd wedi cofrestru diddordeb yn y gwaith o gynllunio APCAP. Cafodd cyfanswm o dros 300 o lythyrau eu postio ac anfonwyd tua 900 o negeseuon e-bost at gleientiaid y gronfa ddata gyda diddordeb dilys. Cafodd yr ymgynghoriad sylw ar gyfryngau cymdeithasol APCAP a thrwy ddatganiad i'r wasg. Roedd arddangosfeydd a thaflenni ar gael yn y Sioe Sirol

ac mewn sioeau lleol y bu staff APCAP ynddynt. Cynhaliwyd cyfarfod Teams gyda'r nos ar gyfer Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned. Cynhaliwyd cyfarfodydd a galwadau gyda sefydliadau eraill, ee yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol.

4. Opsiynau i ymateb: Gallai pobl ymateb drwy ffurflen ar-lein, yn ysgrifenedig neu drwy neges e-bost. Cynigiwyd yr opsiwn i ymateb yn ddienw (neu i dderbyn adroddiad ar yr ymgynghoriadau ond i beidio â bod yn gysylltiedig â sylwadau.)

5. Yr ymateb
   Roedd yr ymatebion yn cynnwys 400 o sylwadau penodol, sef cyfanswm o tua 30,000 o eiriau.

   Gwnaeth yr ymatebwyr canlynol (a gytunodd i gael eu henwi) sylwadau ar ddeunyddiau'r ymgynghoriad:

   - Cyngor Mynydda Prydain
   - Cadwraeth Glöynnod Byw
   - Cadw
   - Yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol
   - Prosiect Cleddau
   - Yr Awdurdod Glo
   - Ffrindiau Pard Cenedlaethol Arfordir Penfro
   - Heneb
   - Cyfoeth Naturiol Cymru
   - Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
   - Cyngor Sir Penfro
   - Fforwm Arfordirol Sir Benfro
   - Llywodraeth Cymru: Tîm polisi tai
   - Llywodraeth Cymru: Cangen Tirluniau a Chefn Gwlad (tîm polisi)
   - Llywodraeth Cymru – Croeso Cymru
   - Llywodraeth Cymru – Cangen Dŵr (gan gynnwys arferion Rheoli Tir, ansawdd dŵr ymdrochi, byrddau rheoli maethynnau a Systemau Draenio Cynaliadwy)
   - Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru

Roedd wyth unigolyn / sefydliad arall nad ydynt wedi cael eu nodi a / neu roedd yn well ganddynt beidio â bod yn gysylltiedig â sylwadau yn yr adroddiad hwn hefyd wedi ymateb.

Gofynnodd sefydliad arall am estyniad i'r dyddiad cau ond, yn y pen draw, nid oedd yn gallu ymateb.

6. Bwriedir cynnull Partneriaeth Cynllun ym mis Ionawr 2025 i sefydlu cylch gorchwyl ac adolygu diwygiadau a awgrymir cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod. Wedi hynny, bydd y bartneriaeth yn cydweithio ar weithredu a phrosiectau newydd ac yn sefydlu fframwaith monitro penodol gyda metrigau i werthuso llwyddiant.

7. Mae strwythur y cynllun wedi cael ei newid o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac mae'r asesiad cam 2 hwn yn ystyried y newidiadau hyn.

8. Themâu o'r ymgynghoriad sy'n berthnasol i effeithiau'r Gymraeg.
   - **Rôl y cynllun i gefnogi'r Gymraeg**
     - Ymatebion i'r arolwg: Pa sylwadau sydd gennych chi ar yr asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg: Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol - Rydyn ni'n cefnogi pob ymdrech i annog defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol. Credwn fod gan y Cynllun Rheoli ran bwysig i'w chwarae o ran integreiddio'r iaith Gymraeg a gwarchod ei threftadaeth.
     - Cyfoeth Naturiol Cymru – **tudalen 63** – Rydyn ni'n nodi cynnwys gwybodaeth ddiddorol am y Gymraeg ond yn ystyried hyn i fod yn enghraifft arall lle nad yw'r heriau a'r cyfleoedd yn cael eu hegluro.
     - Sylwadau ar yr asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg: Cyngor Sir Penfro - Mae'r rhestr uchod yn gynhwysfawr a bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at darged cyffredinol Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (y mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo iddo hefyd.)
     - Sylwadau ar yr Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg – Mae'r sylw a roddir i'r pwnc pwysig hwn yn drylwyr ac yn mynd i'r afael â diogelu'r Gymraeg o sawl persbectif gwahanol. Nodi y gallai darparu addysg cyfrwng Cymraeg ledled Sir Benfro, yn y tymor hir, gael effaith ar ddaearyddiaeth y defnydd o'r Gymraeg yn y Sir. Y pryder mwyaf yw y gallai hyn ddigwydd yn erbyn cefndir o ostyngiad graddol yn y defnydd o'r iaith ar draws y Sir, fel y gwelir yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021.
     - Ymatebion i'r arolwg: Pa sylwadau sydd gennych chi ar yr asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg? - Dim, mae'n iawn fel y mae. Peidiwch â gwneud rhagor.

- Ymatebion i'r arolwg: Pa sylwadau sydd gennych chi ar yr asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg? - Dydw i ddim yn gweld y Gymraeg yn berthnasol i hyn.
- Ymatebion i'r arolwg: Pa sylwadau sydd gennych chi ar yr asesiad cychwynnol o'r effaith ar y Gymraeg? - Er ein bod yn gefnogol i'r iaith Gymraeg, rhaid peidio â'i defnyddio fel esgus i wneud bywyd yn anodd i dwristiaid.

- **Creu Swyddi, Tai Fforddiadwy**
- Adran 7: Cymunedau: Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru- Yn yr un modd â'r adrannau uchod, nid oes targedau pendant, CAMPUS wedi'u hamlinellu yn yr adran hon i sicrhau bod amcanion y cynllun yn cael eu datblygu a'u cyflawni; ac nid yw'n hawdd dilyn y llwybr rhwng canlyniadau, polisïau a chamau enghreifftiol. Er enghraifft, does dim yn yr adran polisi neu gamau enghreifftiol sy'n ymwneud â chyfleoedd gwaith, er bod hynny wedi'i gynnwys yn y prif ganlyniadau ac yn gynharach o lawer yn adrannau rhagarweiniol y cynllun.
- Effaith ar Gydraddoldeb: Cyngor Sir Penfro - Mae rhai pryderon na fydd y Cynllun yn dod â manteision i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, gan ei fod (yn ddealladwy) yn ceisio gwarchod tirweddau ac asedau cadwraeth byd natur y Parc Cenedlaethol rhag difrod ond, wrth wneud hynny, gall gyfyngu ar y datblygiadau economaidd sy'n darparu bywoliaeth. Fodd bynnag, mae'r darlun yn gymhleth, er enghraifft oherwydd bod cynllunio APC yn rhoi pwyslais cryf ar ddarpariaeth tai fforddiadwy, a fydd yn helpu'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, felly mae'n anodd cyffredinoli.
- Cyngor Sir Penfro -Mae swyddogaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro fel Awdurdod Cynllunio a sut mae'n rheoli ansawdd y datblygiad yn absennol yn y fersiwn hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, mae'n un o'r meysydd sy'n effeithio ar lawer o bobl.
- Llywodraeth Cymru – Croeso Cymru: Does dim llawer i'w ychwanegu, ond credaf y gellid cryfhau'r ffaith bod Twristiaeth yn ffactor allweddol sy'n sbarduno economi'r Parc Cenedlaethol yn y ddogfen. Does dim cyfeiriad at y cynllun cyffredinol i'r economi ymwelwyr **Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-2025** hyd y gwelaf i, er bod nodau cyffredinol Croeso i Gymru yn cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Partneriaeth.
- Ymatebion i'r arolwg – Ydyn ni wedi cofnodi Cyflwr y Parc yn gywir, ynghyd â'r prif heriau a chyfleoedd? Oes tystiolaeth arall y gallwn ei hychwanegu? Na – Dydyn ni ddim yn derbyn y syniad bod ail gartrefi a lletyau gwyliau yn ddrwg i'r parc. Maent yn hanfodol i'w hiechyd economaidd.

- **Hyrwyddo Treftadaeth i gynulleidfaoedd mwy amrywiol**
    - Cadw - H1/A – partneriaid – gallech ychwanegu Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a Cadw. A ddylai'r polisi hwn adleisio polisi W/1A (cael gwared ar rwystrau i gymryd rhan mewn hamdden yn yr awyr agored ... a hyrwyddo cyfleoedd i gynulleidfaoedd mwy amrywiol) – a ddylai'r polisi HE [Amgylchedd Hanesyddol] gynnwys gwella ymwybyddiaeth a mwynhad y cyhoedd, yn ogystal â chael gwared ar rwystrau (rhai go iawn neu dybiedig) a hyrwyddo treftadaeth i gynulleidfa fwy amrywiol?
    - Cyngor Sir Penfro – Nid yw'n ymddangos bod unrhyw sôn am hyrwyddo'r celfyddydau ac mae'n ymddangos bod llawer iawn o sôn am dreftadaeth ddiwylliannol sy'n ymwneud yn fwy â'r gorffennol a gwarchod y gorffennol. Drwy'r celfyddydau y caiff pethau newydd eu creu, ac o ble daw llawer o fywiogrwydd. Mae'n werth nodi bod mwy o artistiaid yn sir Benfro fesul pen nag yn unrhyw sir arall yn y DU.